

PRIFYSGOL ABERTAWE

ÔL-RADDEDIG 2027





Darganfydda fwy am Brifysgol Abertawe a'n rhaglenni ôl-raddedig trwy gadw lle ar un o'n diwrnodau agored sydd ar ddod*.

*Edrych ar ein gwefan i gael manylion llawn, dyddiadau a fformat y diwrnodau agored sydd ar ddod.

Cynnwys

04 CROESO
05 PAM ABERTAWE
10 DARGANFOD ABERTAWE
12 MAPIAU'R CAMPWS
16 FFÏOEDD AC ARIANNU
21 CYLLIDEBU
22 GYRFAOEDD A CHYFLOGADWYEDD
24 YMCHWIL YM MHRIFYSGOL ABERTAWE
26 GRADDAU A ADDYSGIR ÔL-RADDEDIG
28 GRADDAU YMCHWIL ÔL-RADDEDIG
32 ISRADDEDIG I ÔL-RADDEDIG
34 BYWYD PRIFYSGOL ABERTAWE
36 LLETY
39 YN DY GEFNOGI
40 CYFLEOEDD ASTUDIO DRAMOR A HAF
42 MANTEISION ASTUDIO TRWY'R GYMRAEG
46 UNDEB Y MYFYRWYR
48 CHWARAEON
51 CYNALIADWYEDD
52 CYN-FYFYRWYR
54 SUT I WNEUD CAIS
56 RHESTR WIRIO YMGEISIO
61 DY GANLLAW I'R CYRSIAU
62 CYRSIAU A-Y








12


16

RHEOLI DY ARIAN


21

YN DY GEFNOGI DI


39


YN YSTYRIED TEITHIO DRAMOR YN YSTOD DY ASTUDIAETHAU?

40


36

61



Dy Ganllaw

I RADDAU ÔL-RADDEDIG

Croeso

gan yr Is-ganghellor, Yr Athro Paul Boyle

Dechreuais fy ngyrfa academaidd gyntaf fel darlithydd ifanc yn Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Abertawe, a gallaf ddweud yn hyderus fod ansawdd yr addysg a'r amgylchedd cefnogol rydym yn ei gynnig yma yn anodd ei ganfod yn unrhyw le arall.

Er bod ein Prifysgol wedi trawsnewid yn sylweddol ers ei sefydlu dros ganrif yn ôl, rydym wedi parhau'n ffyddlon i'n hegwyddorion sylfaenol. Rydym yn sefydliad amrywiol a chynhwysol, ac rydym yn falch o'n staff a'n myfyrwyr sy'n dod o bob cwr o'r byd. Rydym yn rhoi pobl yn gyntaf, ac mae ein myfyrwyr yn gwneud cyfraniad gweithgar a hanfodol at gymuned fywiog a chroesawgar y Brifysgol.

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn cydnabod yr ymrwymiad a'r penderfyniad sydd eu hangen i ddewis ymgymryd ag astudiaethau ôl-raddedig. Yn gyfnewid am hynny, rydym wedi ymrwymo i ddarparu rhagoriaeth academaidd ac amgylchedd ymchwil ffyniannus a chefnogol lle gall ein hymchwilwyr ôl-raddedig wneud gwahaniaeth go iawn.

Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf (2021), cafodd 91% o'n hamgylchedd ymchwil eu graddio fel rhai sy'n arwain y byd ac yn rhagorol yn rhyngwladol. Mae ein hymchwil hefyd yn cael effaith ymarferol ar gymdeithas a llunio polisïau cyhoeddus. Mae ein hymchwil yn gyson yn llywio polisïau sy'n effeithio ar Gymru a'r Gymraeg, gan gynnwys gwaith ar y dulliau gorau o gyflwyno'r Gymraeg i fewnfudwyr, yn ogystal ag ymchwil ar ddinasyddiaeth, amlddiwylliannedd a'r Gymraeg, sydd wedi dylanwadu ar gynlluniau Llywodraeth Cymru. Rydym yn falch o'n cydnabyddiaeth fyd-eang, gan ein bod wedi ein rhestru ymhlith 350 o brifysgolion gorau'r byd yn rhestr ddiweddaraf Prifysgolion y Byd QS; tystiolaeth o'n hymrwymiad i ragoriaeth academaidd.

Mae lleoliad eiddigeddus ein campysau ar Fae hardd Abertawe yn cynnig mynediad hawdd at y traeth, tra bod Campws Singleton wedi'i leoli yng nghanol parciau tonnog a gerddi botanegol trawiadol. Gyda'i gilydd, maent yn cynnig digon o gyfleoedd i gymdeithasu mewn mannau diogel ac agored, yng nghanol dinas fach a chyfeillgar.

Yn awr, yn fwy nag erioed, mae llesiant a llwyddiant pob myfyriwr wrth galon popeth a wnawn. Gobeithio bod fy ffydd yn ein Prifysgol yn amlwg, ond paid â chymryd fy ngair i yn unig. Edrycha drwy ein prosbectws i ddarganfod mwy.



350 UCHAF

WEDI'I RADDIO'N FYD-EANG YMHLITH PRIFYSGOLION GORAU'R BYD

(Tablau Prifysgolion y Byd QS 2027)

O'R CAMPWS I'R TRAETH MEWN CHWINCIAD

Ym Mhrifysgol Abertawe, gelli di fynd yn syth o'r campws i draeth hyfryd 5 milltir o hyd, sy'n hawdd i'w gyrraedd o'r ddau gampws.

3
THRAETH
BANER LAS
ar dy stepen drws
2026

AR GYFARTALEDD MAE RHENT
25.6%
IS NA CHAERDYDD*

BYWYD MYFYRIWR NA FYDD YN COSTIO FFORTIWN!

Yn Abertawe, mae'r rhent, a chost bwyta allan, bwyd ac adloniant, yn is na llawer o ddinasoedd mwy yn y DU sydd â phrifysgol, felly gallai dy gyllideb ymestyn ychydig ymhellach.



7fed Dinas fwyaf Diogel yn y DU i fyfyrwyr

(Complete University Guide 2025)

*Gwybodaeth a ddarparwyd gan Numbeo, Awst 2026



94%
Y GYFRADD GYFLOGADWYEDD*

GALL CYFLOGAU ÔL-RADDEDIGION FOD
19%
YN UWCH **
na'r cyflog canolrifol ar lefel israddedig

BOD YN BAROD AM WAITH AR ÔL GRADDIO

Gyda hanes rhagorol o ran cyflogadwyedd, mae Prifysgol Abertawe yn sicrhau dy fod yn barod am y farchnad swyddi. Mae ein cysylltiadau cryf â byd diwydiant a chwmnïau adnabyddus yn sail i'n hymrwymiad i fodloni gofynion byd diwydiant.

Mae gan lawer o'n cyrsiau achrediad proffesiynol neu maen nhw'n cynnig lleoliadau gwaith prosiect ym myd diwydiant, gan dy alluogi i gymhwyso dy wybodaeth mewn lleoliadau ymarferol.

*94% o'n graddedigion yn gweithio, astudio a/neu'n ymgymryd â gweithgareddau eraill, megis teithio, 15 mis ar ôl gadael Prifysgol Abertawe (HESA 2026, yn seiliedig ar Ddata Hynt Graddedigion 2023/24)

** Mae cyflog canolrifol ôl-raddedigion y DU yn 2023-24 yn 19% yn uwch na chyflog canolrifol graddedigion israddedig bum mlynedd ar ôl graddio, yn ôl data Longitudinal Education Outcomes 2026 Llywodraeth y DU



86% SGÔR FFRAMWAITH RHAGORIAETH YMCHWIL 2021

£60m+ INCWM YMCHWIL



people & planet UNIVERSITY LEAGUE

GWOBR DOSBARTH **1AF**

(Cynghrair Prifysgol People & Planet 2025/26)

97% **O FYFYRWYR**

A HOLWYD YN ARGYMELL PRIFYSGOL ABERTAWE

(Uni Compare University Rankings 2027)

PROFIAD O RAGORIAETH MEWN PRIFYSGOL SYDD YMYSG Y GOREUON YN Y DU

Mae dewis Prifysgol Abertawe yn golygu dewis sefydliad sy'n cael ei arwain gan ymchwil ac ymuno â chymuned academaidd o fri. Mae rhai o ysgolheigion mwyaf blaenllaw Cymru o fri rhyngwladol yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac rydym ni'n ymroddedig i dy helpu i lwyddo. Mae ein safleoedd yn tynnu sylw at ein hymrwymiad i roi addysg o'r radd flaenaf i ti, ynghyd â digon o gyfleoedd i ffynnu.





BUDDSODDIADAU ENFAWR AR Y CAMPWS

Rydym ni wedi buddsoddi'n sylweddol yn dy ddyfodol, gan greu mannau ymlacio ac astudio i fyfyrwyr mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf ar draws y ddau gampws.

Darganfydda fwy








Prifysgol Abertawe
Swansea University

Darganfod Abertawe

Dere i ddarganfod mannau cudd hudolus i dynnu lluniau gwefreiddiol, llwybrau cerdded arfordirol trawiadol, llwybrau beicio mynydd o safon fyd-eang a thraethau arobryn. Mae'r cyfan ar garreg ein drws.



Taith Gerdded y Pedair Rhaeadr, Ystradfellte

ABERTAWE A'R CYFFINIAU

Dadweindia ar Benrhyn Gŵyr, ymlacia ar draethau arobryn, neu archwilia gefn gwlad heb ei ddifetha ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae gan ein rhanbarth rai o leoliadau gorau'r DU ar gyfer llwybrau arfordirol, syrffio, beicio, chwaraeon dŵr, dringo creigiau a golff. O chwaraeon antur i dro hamddenol ar y traeth, mae rhywbeth at ddant pawb.

CERDDORIAETH, GWYLIAU A DIGWYDDIADAU MAWR

Chei di ddim dy siomi gan y dewis o gerddoriaeth sydd ar gael gyda llu o gigiau Cymraeg ar draws y ddinas ac yn Nhŷ Tawe! Un o uchafbwyntiau y calendr Cymraeg yn Abertawe yw Gŵyl Tawe, gyda pherfformiadau gan artistiaid Cymraeg amgen cyffrous a chyfoes fel N'famady Kouyaté, Melin Melyn a llawer mwy.

Mae Abertawe'n denu nifer o ddigwyddiadau blynyddol mawr, gan gynnwys yr IronMan 70.3, a wnaed yn rhan o'u Cyfres Pro yn ddiweddar, gyda rhai o athletwyr gorau'r byd yn bresennol, Sioe Awyr Bae Abertawe, a fynychir yn aml gan y Red Arrows, a Rasys 10k a Hanner Marathon y Bae Abertawe.

Y CELFYDDYDAU A CHANOLFAN TALIESIN

Mae Abertawe'n ganolfan fywiog ar gyfer celf ac mae Oriel Glynn Vivian yn cael ei chydnabod fel prif leoliad y ddinas. Mae mynediad am ddim i holl amgueddfeydd ac orielau celf cenedlaethol Cymru, felly gelli di ymdrochi yn ein diwylliant yn dy amser dy hun.

Mae Canolfan y Celfyddydau Taliesin yng nghanol Campws Parc Singleton yn dangos sioeau, digrifwyr a ffilmiau'n rheolaidd, ac mae'n gartref i'r Ganolfan Eifftaidd arobryn, gyda chasgliad o dros 5,000 o arteffactau o'r Hen Aifft.

SIOPA

Siopa am ddillad yr oes a fu yn Uplands, brandiau mawr y stryd fawr yn y ddinas, siopau annibynnol yn y Mwmbwls, neu ddod o hyd i drysorau cudd ym marchnad dan do fwyaf Cymru. Mae Siop Tŷ Tawe yng nghanol y ddinas yn gyfleus ar gyfer llyfrau, cardiau, anrhegion a nwyddau Cymraeg.

STUDENT Vlogs MYFYRWYR


Gwylia ein flogiau myfyrwyr











BIOWYDDORAU, CEMEG A DAEARYDDIAETH

DIWYLLIANT A CHYFATHREBU, GWYDDORAU CYMDEITHASOL, Y GYFRAITH,

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, SEICOLEG, YSGOL FEDDYGAETH PRIFYSGOL ABERTAWE

ACADEMI HYWEL TEIFI

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU TALIESIN A'R GANOLFAN EIFFTAIDD

HWB
Cynnig gwybodaeth ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar fywyd myfyrwyr.

LLETY MYFYRWYR

LLYFRGELL PARC SINGLETON

PARC CHWARAEON BAE ABERTAWE

GREGGS

SPAR

TORTILLA
Real California Burritos & Tacos



TŶ FULTON
Mannau gwerthu bwyd gan gynnwys Greggs, Starbucks a Tortilla.

Archfarchnad, bar Undeb y Myfyrwyr, clwb nos, siopau, a Harbwr Fulton – man cymdeithasol gydag ystafell gemau a chaffi.

UNDEB Y MYFYRWYR

YR HAFAN
(Gofod aml-ffydd a myfyriol)

GWASANAETH BWS HWYR Y NOS
(tan 3:30am yn ystod y tymor)

Tua 25 munud i Gampws y Bae,
15 munud i ganol y ddinas

CYFLEUSTERAU ERAILL:
- Doctor/Deintydd
- Golchdy

GWOBR DOSBARTH 1AF
people & planet UNIVERSITY LEAGUE
(Cynghrair Prifysgol People & Planet 2025/26)

Green Flag Award ® Gwobr Y Faner Werdd
(2026/27)



PEIRIANNEG, FFISEG, GWYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF

Y FFOWNDRI GYFRIFIADOL - CYFRIFIADUREG A MATHEMATEG

YR YSGOL REOLAETH

CAMPFA A CHYFLEUSTERAU CHWARAEON

CUDDFAN GYMDEITHASOL ABERTAWE
(Swansea Social Hideaway)

HWB
Cynnig gwybodaeth ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar fywyd myfyrwyr.

LLETY MYFYRWYR

LLYFRGELL Y BAE



UNDEB Y MYFYRWYR

Y COLEG

Y NEUADD FAWR

YR HAFAN
(Gofod aml-ffydd a myfyriol)

GWASANAETH BWS HWYR Y NOS
(tan 3:30am yn ystod y tymor)

Tua 25 munud i Gampws Parc Singleton,
15 munud i ganol y ddinas

CYFLEUSTERAU ERAILL:

- Archfarchnad
- Golchdy

people & planet UNIVERSITY LEAGUE GWOBR DOSBARTH 1AF

(Cynghrair Prifysgol People & Planet 2025/26)

Green Flag Award® Gwobr Y Faner Werdd

(2026/27

Ariannu DY ASTUDIAETHAU

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i wobrwyo rhagoriaeth academaidd ac anacademaidd, ac rydym yn cynnig amrywiaeth eang o ysgoloriaethau a bwrsariaethau i helpu tuag at gostau astudio.

Mae bwrsariaethau ar sail incwm ar gael hefyd, ynghyd â chyllid tuag at astudio mewn gwlad arall os rwyt yn dewis gwneud hynny fel rhan o dy raglen gradd.

Gweler ein tudalen ariannu am wybodaeth bellach, i wirio a wyt yn bodloni'r meini prawf cymhwyso neu i wneud cais.

Darganfydda fwy





YSGOLORIAETHAU PHD **WEDI'U HARIANNU'N LLAWN**

Am ragor o wybodaeth ac i wirio'r ysgoloriaethau ymchwil sydd ar gael ar hyn o bryd

Darganfydda fwy

£3,000

YSGOLORIAETH GOFFA HYWEL TEIFI

(Ar gael i gefnogi myfyrwyr ymchwil sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn meysydd penodol)

Darganfydda fwy

£300

YSGOLORIAETH ACADEMI HYWEL TEIFI

(Ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio 40 credyd neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg mewn meysydd penodol)

Darganfydda fwy

HYD AT £2,000

YSGOLORIAETH RHAGORIAETH CHWARAEON

Darganfydda fwy

YSGOLORIAETH CERDDOROL

Hyd at bymtheg awr o hyfforddiant unigol y flwyddyn ar eu hofferyn neu lais. Bwrsariaeth flynyddol o £650 (Ar gael i fyfyrwyr meistr a addysgir yn unig)

Darganfydda fwy

Gweler amodau a thelerau ar:
abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau

FFÏOEDD A *Chyllid*

Rydym yn ymrwymo i fuddsoddiad sylweddol mewn addysg ôl-raddedig.

Mae ein hysgoloriaethau meistr ar gael ar draws yr holl gyfadrannau ac ysgolion academaidd, ac yn cael eu hysbysebu trwy gydol y flwyddyn, gan gynnig cyllid i fyfyrwyr y DU a Rhyngwladol.

FFÏOEDD DYSGU

Caiff ffïoedd dysgu eu pennu yn ôl y math o gwrs rwyt ti'n ei ddilyn, y maes pwnc, a dy wlad breswyl.

Gofynnir i ti dalu dy ffïoedd, neu ddangos tystiolaeth o nawdd, cyn cofrestru neu yn ystod y broses gofrestru. Gelli di ddod o hyd i fanylion am ffïoedd dysgu pob cwrs ar ein gwefan:

Darganfydda fwy

Mae ffïoedd dysgu yn destun codiadau blynyddol a chyhoeddir y cyfraddau newydd ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant ar gael.

Edrych ar ein tudalen we Ffïoedd a Chyllid am ragor o wybodaeth i dy helpu gyda dy gais i astudio yn Abertawe.

Darganfydda fwy

CYLLID

Mae sawl ffordd i ariannu dy astudiaethau ôl-raddedig bellach. Yn ogystal â'r ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau y mae Prifysgol Abertawe yn eu darparu, gall ôl-raddedigion gael arian gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Cyllid Myfyrwyr Cymru, cynghorau ymchwil, diwydiant ac elusennau. Mae llawer o fyfyrwyr ôl-raddedig yn ariannu eu hastudiaethau drwy 'portffolio ariannu', gan gasglu arian o amrywiaeth o ffynonellau. Mae enghreifftiau o'r mathau o arian sydd ar gael yn cynnwys:

CYLLID Y LLYWODRAETH I ÔL-RADDEDIGION

Mae cyllid ôl-raddedig y llywodraeth ar gael i bob myfyriwr sy'n byw yn y DU a'r UE sy'n astudio cyrsiau lefel meistr a PhD mewn prifysgol yn y DU. Mae'r dull o gymhwyso a'r swm y gelli ei dderbyn yn dibynnu ar dy wlad breswyl. Gelli ddod o hyd i'r holl wybodaeth ddiweddaraf ar ein gwefan:

Darganfydda fwy



YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU MEISTR PRIFYSGOL ABERTAWE

Rydym yn hysbysebu ystod o ysgoloriaethau a bwrsariaethau meistr trwy gydol y flwyddyn academaidd. Bydd yr holl gyfleoedd yn cael eu rhestru ar y wefan ganlynol, ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd:

Darganfydda fwy

YSGOLORIAETHAU RHAGLEN YMCHWIL

Mae ysgoloriaethau ymchwil Prifysgol Abertawe wedi'u rhestru drwy'r ddolen isod. (Noder y caiff y dudalen hon o'r wefan ei diweddaru drwy gydol y flwyddyn.)

Caiff manylion ynghylch sut i wneud cais am ysgoloriaeth eu rhestru ar bob hysbyseb unigol.

Darganfydda fwy

YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU'R CYFADRANNAU

Mae llawer o'n cyfadrannau academaidd hefyd yn cynnig ysgoloriaethau a bwrsariaethau ychwanegol ar gyfer rhaglenni a addysgir a rhaglenni ymchwil.

Caiff ysgoloriaethau a bwrsariaethau eu cynnig drwy gydol y flwyddyn a byddwn yn eu hysbysebu ar ein gwefan. Gelli sicrhau dy fod ymhlith y cyntaf i gael gwybod am y cyfleoedd ariannu a gynigir gennym drwy edrych ar:

Darganfydda fwy

ELUSENNAU, SEFYDLIADAU AC YMDDIRIEDOLAETHAU

Mae nifer fawr o elusennau, sefydliadau ac ymddiriedolaethau yn dyfarnu arian i gefnogi astudiaethau ôl-raddedig. Gellir cael manylion yn The Grants Register (a gyhoeddir gan Palgrave Macmillan) a The Directory of Grant Making Trusts (a gyhoeddir gan y Sefydliad o Newid Cymdeithasol), y dylai'r ddau ohonynt fod ar gael o wasanaeth gyrfaoedd dy brifysgol a dy lyfrgell leol.

CYNGOR A CHYMORTH ARIANNOL

Mae'r **Tîm Cyngor Arian** yn cynnig arweiniad ar bob agwedd ar gyllid myfyrwyr gan gynnwys:

- Grantiau, benthyciadau, bwrsariaethau a budd-daliadau lles
- Dy helpu i reoli dy arian
- Cynorthwyo unigolion sy'n gadael gofal
- Gwobr Cyfle
- Dy helpu i lunio cyllideb realistig
- Cyngor ar ddyledion

Tîm Cyngor Arian

GWOBR CYFLE PRIFYSGOL ABERTAWE

Bwriad y gronfa galedi yw cefnogi myfyrwyr trwy unrhyw amgylchiadau ariannol annisgwyl neu anodd tra byddant yn y Brifysgol. Bydd pob cais yn cael ei ystyried a'i asesu ar sail unigol, gyda'r cyfrinachedd llymaf gan ein cynghorwyr arbenigol.

Darganfydda fwy

ENNILL TRA BYDDI DI'N DYSGU

Mae digon o swyddi rhan amser ar gael yn Abertawe a'r ardal leol, ac mae gan y tîm Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd wybodaeth am amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer gwaith dros dro a gwaith rhan amser, yn ogystal â lleoliadau haf ac interniaethau.

Darganfydda fwy

CYNORTHWYO UNIGOLION SY'N GADAEL GOFAL

Rydym yn gweinyddu ac yn darparu'r Pecyn Cynorthwyo i Bobl sy'n Gadael Gofal, sef amrywiaeth gynhwysfawr o fesurau er mwyn helpu pobl sy'n gadael gofal i ymgartrefu ac i ganolbwyntio ar eu hastudiaethau. Gall myfyrwyr ôl-raddedig cymwys dderbyn bwrsariaeth Gadael Gofal ôl-raddedig sy'n daliad untro y cwrs.

Darganfydda fwy



Cyllidebu

BYWYD MYFYRWYR

- Gwna gais am swydd ran amser i roi hwb i dy incwm. Mae ein Cynllun Llysgennad Myfyrwyr taledig yn ddewis gwych
- Defnyddia ap i rannu cost biliau a hanfodion yr aelwyd â dy gyd-letywyr
- Tanysgrifia i gylchlythyr 'Money Saving Expert'

SIOPA

- Mynna gerdyn disgowntiau myfyrwyr – TOTUM ac UniDays i gael arbedion anferth
- Pryna ddillad ail-law a newydd ar Vinted, eBay a Depop, neu wertha eitemau nad wyt eu heisiau

BANCIO

- Mynna gyfrif banc da i fyfyrwyr. Mae gorddrafftiau di-log yn ddewis da yn hytrach na cherdyn credyd
- Penna uchafsymiau gwario a rhybuddion ar dy ap bancio

BWYD

- Cynllunia dy fwydlen am yr wythnos
- Lawrlwytha'r ap 'Too Good to Go' a lleihau gwastraff bwyd

TEITHIO

- Beicia o gwmpas ar Feiciau Prifysgol Abertawe, gyda gorsafoedd ar draws y ddinas
- Defnyddia dy gerdyn myfyriwr i gael gostyngiadau ar feiciau ac offer yn Uprise yn Uplands

Am ragor o awgrymiadau euraidd ar sut i reoli dy arian, cer i:
abertawe.ac.uk/cyngor-arian a chlyw gan ein ein tîm arobryn

AWGRYMIADAU EURAIDD I WNEUD Y MWYAF O DY ARIAN

£158
CYFARTALEDD RHENT WYTHNOSOL

Yn seiliedig ar werth rhentu cyfartalog:
swanseastudentpad.co.uk/statistics
(Cyrchwyd ym mis Gorffennaf 2026)

TOCYN BWS
£4 Y DYDD
'TAP ON, TAP OFF'

(TOTO) teithio gyda rhwydwaith UniBus:
abertawe.ac.uk/teithio/cludiant-cyhoeddus

LLAI NA **£10**

am bryd poeth, pryd ochr a diod wrth fwyta yn un o'n mannau bwyta ar y campws

AELODAETH Â'R GAMPFA

O **£16.50** Y MIS
Parc Chwaraeon Bae Abertawe



RHO HWB I DY *Ragolygon Gyrfa*

GALL CYFLOGAU ÔL-RADDEDIGION FOD

19%

YN UWCH **

na'r cyflog canolrifol ar lefel israddedig

CYFLOGADWYEDD: DATBLYGU GYRFA AC ENTREPRENEURIAETH

Yn Abertawe, rydym wedi ymrwymo i dy helpu di i gyflawni gyrfa raddedig gyflawn a gwerth chweil.

Mae ein tîm Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yma i dy gysylltu â busnes a diwydiant, gan gynnig cyfleoedd rhwydweithio a phrofiad gwaith gwerthfawr. Ochr yn ochr â dy astudiaethau, byddwn yn dy helpu di feithrin y sgiliau a'r rhinweddau ar gyfer gyrfa y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Mae ein rhaglenni wedi'u cynllunio i adlewyrchu'r hyn y mae busnesau'n ei werthfawrogi, gyda llawer o gyrsiau wedi'u teilwra i gynnwys profiad proffesiynol a masnachol perthnasol. Lle bynnag y bo modd, mae cyrsiau hefyd wedi'u hachredu gan gyrff proffesiynol.

Mae ein hanes hir o weithio gyda busnesau, diwydiant, masnach a'r sector cyhoeddus yn golygu y gallwn ychwanegu gwerth gwirioneddol at dy addysg.

ADDYSGU A DYSGU YSBRYDOLEDIG

Mae'r gwaith ymchwil arloesol a wneir yn yr amrywiol gyfadrannau yn sail i'n haddysgu ardderchog. Mae'r ffaith eu bod yn rhan flaenllaw o unrhyw ddatblygiadau newydd a'u bod wedi'u cysylltu'n agos â diwydiant o fudd i bob un o'n cyrsiau, gan sicrhau bod ein graddedigion wedi'u paratoi'n drylwyr ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

GRADDEDIGION MENTRUS

Rydym yn cefnogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd a sgiliau gyrfa sy'n addas ar gyfer y dyfodol, drwy gyngor gyrfaoedd wedi'i deilwra, interniaethau wedi'u hariannu, lleoliadau diwydiannol, a chyfleoedd menter gan gynnwys cymorth i sefydlu busnes, mentora, gweithdai, cystadlaethau a digwyddiadau rhwydweithio busnes.

enterprise@abertawe.ac.uk

abertawe.ac.uk/cyflogadwyedd/myfyrwyr

* Mae cyflog canolrifol ôl-raddedigion y DU yn 2023-24 yn 19% yn uwch na chyflog canolrifol graddedigion israddedig bum mlynedd ar ôl graddio, yn ôl data Longitudinal Education Outcomes 2026 Llywodraeth y DU

SUT GALL PRIFYSGOL ABERTAWE FY HELPU I?

- Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd un i un a ddarperir gan Ymgynghorwyr Gyrfaoedd â chymwysterau proffesiynol
- Mynediad at feddalwedd cyflogadwyedd arbenigol ac offer deallusrwydd artiffisial, gan gynnwys, gwiriwr CV ac efelychydd cyfweliad
- Interniaethau tymor byr â thâl a di-dâl, gan gynnwys opsiynau hyblyg ar-lein
- Bwrsariaethau tuag at weithgareddau cyflogadwyedd, e.e. teithio i gyfweliadau swydd, offer ar gyfer gweithio o bell, gwisg busnes ac ati
- Cyfleoedd gwaith rhan amser fel y Cynllun Llysgennad Myfyrwyr
- Mynediad i'n Cwrs Datblygu Gyrfa pwrpasol sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer myfyrwyr a graddedigion Abertawe
- Mentrau cyflogadwyedd sy'n benodol i'r cyfadrannau
- Ffair yrfaoedd flynyddol a rhestr o ddigwyddiadau datblygu sgiliau a chyflogwyr
- Cymorth gyrfaoedd gydol oes trwy ein Rhaglen Cymorth i Raddedigion
- Rhaglenni cyflogadwyedd penodol ar gyfer myfyrwyr sydd â rhwystrau i recriwtio megis y rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr anabl

DYMA SIMON A MATTHEW, DAU FYFYRIWR PEIRIANNEG ÔL-RADDEDIG SYDD WEDI TROI EU HYMCHWIL YN FUSNES NEWYDD

Sefydlwyd y cwmni Air View Engineering gan ddau o fyfyrwyr ôl-raddedig Prifysgol Abertawe â'r nod o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae eu technoleg dal CO_2 flaengar yn ffrwyth tair blynedd o arloesi a datblygu, â'r nod o greu ateb modiwlaidd, y gellir ei roi ar waith ar raddfa ac yn gyflym. Gyda chymorth cyson gan Dîm Mentergarwch Prifysgol Abertawe a mwy na hanner miliwn o bunnoedd mewn grantiau, maen nhw wedi dechrau datblygu eu cyfleuster peilot cyntaf. Mae gwydnwch yn bwysig ond, gyda syniad da, ddylai ddim byd dy rwystro rhag cyflawni dy nodau. Mae Air View Engineering yn brawf y gelli di ddefnyddio dy radd ôl-raddedig i ddatrys problemau'r byd go iawn a chael effaith ystyrlon.

SIMON OLIVER a MATTHEW TUCKER,
Peirianneg Fecanyddol MEng

CYSYLLTIADAU Â CHYFLOGWYR:

Admiral, Bentley, Swansea City AFC, Ospreys, Rolls-Royce, Tokio Marine Group, JLR, Network Rail, Santander Universities, pwc, GIG Cymru NHS Wales, Tata Steel, gsk, Airbus, Pfizer, Driver & Vehicle Licensing Agency

PRIFYSGOL YMCHWIL DDWYS

o'r Radd Flaenaf

Yn Abertawe, mae ein hymchwil yn newid bywydau. Dydym ni ddim yn ofni mynd i'r afael â materion mawr, ac rydym wedi gwneud effaith gadarnhaol yn fyd-eang mewn meysydd fel yr argyfwng hinsawdd, cadw henebion hynafol, a gwella iechyd. Rydym wedi arwain ar brosiect adfer Morwellt mwyaf erioed y DU, defnyddio data mawr i leihau hunan-niweidio a hunanladdiad, a hyd yn oed wedi datblygu adeiladau sy'n cynhyrchu, storio a rhyddhau eu hynni eu hunain.

Mae llawer o'n hymchwilwyr hefyd yn dysgu ar ein cyrsiau, felly byddi di'n elwa o'u gwybodaeth a'u profiad fel rhan o dy astudiaethau. Gelli di hyd yn oed ddod yn rhan o dîm ymchwil, gan helpu i archwilio, atal a datrys materion byd-eang.

350 UCHAF

SAFLE FYD-EANG YMHLITH PRIFYSGOLION GORAU'R BYD


(Tablau Prifysgolion y Byd QS 2027)

86%

ANSAWDD YMCHWIL CYFFREDINOL

YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL

(Fframwaith Rhgaoriaeth Ymchwil 2021)



Delwedd: Injan Pearl 15 wedi'i haddasu. Credyd: © Rolls-Royce plc 2026 • Cedwir pob hawl.

RYDYM YN HELPU I LUNIO DYFODOL HEDFAN SERO-NET CARBON

Bu Prifysgol Abertawe yn rhan o gyflawni camp o bwys byd-eang drwy raglen HYEST, dan arweiniad Rolls-Royce ac easyJet: injan awyren fodern yn rhedeg ar 100% hydrogen ar bŵer esgyn llawn am y tro cyntaf erioed.

Drwy ddarparu arbenigedd hanfodol ym maes deunyddiau a galluoedd profi arloesol, mae Prifysgol Abertawe yn helpu i sbarduno datblygiad technolegau hedfan sero-net carbon a dyfodol mwy cynaliadwy i deithio awyr.

Darganfydda fwy

RYDYM YN TROI CO_2 CWRW YN AUR GWYRDD GYDAG ALGÂU






Darganfydda fwy

RYDYM YN TRAWSNEWID ATAL HUNAN-NIWEIDIO A HUNANLADDIAD

Darganfydda fwy

RYDYM YN DATBLYGU YMCHWIL A CHYNNYDD CLINIGOL MEWN GOFAL ADLUNIOL BENYWAIDD





Darganfydda fwy

RYDYM NI'N ARCHWILIO SAFBWYNTIAU BRODOROL AR BATAGONIA



AI GRADD ÔL-RADDEDIG A ADDYSGIR YW'R DEWIS PRIODOL I MI?

Ie, os wyt ti eisiau:

- ✓ Gwella dy ragolygon gyrfa
- ✓ Meithrin sgiliau newydd ac arbenigol
- ✓ Paratoi ar gyfer gradd ymchwil
- ✓ Datblygu dy wybodaeth bwnc o dy radd gyntaf
- ✓ Astudio pwnc newydd sbon
- ✓ Gwella dy botensial cyflog

Graddau Ôl-raddedig

A ADDYSGIR

Mae graddau ôl-raddedig a addysgir yn cynnig her academaidd gyffrous y tu hwnt i astudiaethau israddedig, gan ofyn am fwy o ddysgu hunangyfeiriedig a dealltwriaeth ddyfnach o dy bwnc. Mae ein rhaglenni meistr yn cyfuno modiwlau a addysgir sy'n ennyn diddordeb trwy waith cwrs a asesir, gan ddod i ben trwy brosiect ymchwil neu draethawd estynedig.

Trwy 120 o gredydau o fodiwlau a addysgir a 60 o gredydau o dy draethawd estynedig, byddi di'n meithrin gwybodaeth gynhwysfawr ac arbenigedd. Mae ein cyrsiau'n cynnwys sgiliau ymchwil a methodoleg hanfodol, yn ogystal â hyfforddiant adrannol pwrpasol i dy baratoi ar gyfer dy astudiaethau academaidd a phroffesiynol uwch.

Bydd cyfleoedd hyfforddiant arbenigol drwy gydol y flwyddyn yn cyfoethogi dy brofiad dysgu. Ar ben hynny, gelli di ennill Diploma Ôl-raddedig gyda 120 o gredydau neu Dystysgrif Ôl-raddedig gyda 60 o gredydau.


Ym Mhrifysgol Abertawe, gelli di ddewis o blith ystod amrywiol o raglenni gradd ôl-raddedig, gan gynnwys MA, MSc a LLM, naill ai'n parhau â ffocws dy raglen israddedig neu'n archwilio meysydd newydd. Ymuna â ni i ehangu dy wybodaeth, gwella dy sgiliau ac agor drysau i gyfleoedd gyrfa cyffrous.

BODDHAD MYFYRWYR ADDYSGU ÔL-RADDEDIG

93%*

Arolwg Profiad Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir 2026

*Dywedodd 93% o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir eu bod yn fodlon â'r addysgu ar eu cwrs. Data yn seiliedig ar 418 o ymatebion a gymerwyd o PGTSES 2026 – arolwg mewnol yn asesu boddhad myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir Prifysgol Abertawe



LLWYBR CARLAM I FYFYRWYR PRESENNOL PRIFYSGOL ABERTAWE

LLWYBR CARLAM

Os wyt ti'n fyfyriwr presennol ym Mhrifysgol Abertawe, gelli di wneud cais i astudio ar gwrs Meistr cymwys drwy lwybr carlam*. Dyma rai o'r manteision allweddol wrth wneud cais trwy Lwybr Carlam:

- Nid oes rhaid i ti ddarparu dy drawsgrifiadau academaidd na ddatganiad personol
- Bydd dy gais yn cymryd blaenoriaeth
- Byddi di'n derbyn penderfyniad o fewn dau ddiwrnod gwaith

*cyrsiau cymwys yn unig. Rhestr lawn ar gael ar ein tudalen we Llwybr Carlam. **abertawe.ac.uk/ol-raddedig/sut-i-wneud-cais/llwybr-carlam**

CYRSIAU TROSI

Os wyt ti am newid cyfeiriad dy astudiaethau neu dy lwybr gyrfa, mae gen ti'r opsiwn fel myfyriwr ôl-raddedig i symud i ffwrdd o'r maes a astudiaist ar lefel israddedig drwy astudio cwrs trosi. Mae'r cyrsiau hyn yn caniatáu i raddedigion o unrhyw faes pwnc astudio cwrs meistr ôl-raddedig heb unrhyw gymwysterau perthnasol blaenorol.

Mae gennym ddetholiad amrywiol o gyrsiau trosi ar gael ym maes cyllid, gwyddoniaeth, peirianneg, gwyddor iechyd, meddygaeth, y gyfraith, rheoli busnes, a'r celfyddydau a'r dyniaethau.



RHESTR O GYRSIAU
GRADDAU A ADDYSGIR

A ALLAF ASTUDIO'N RHAN AMSER?

Fel arfer, gellir astudio ar gyfer rhaglenni Meistr, Diplomâu Ôl-raddedig a Thystysgrifau Ôl-raddedig yn llawn amser neu'n rhan amser mewn amrywiaeth eang o feysydd pwnc. Cyn gwneud cais, byddem yn dy annog i gysylltu â'r adran academaidd berthnasol.

ASESIAD DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Cymraeg

Gelli di gyflwyno gwaith ymchwil yn y Gymraeg os yw dy oruchwylwyr yn gallu goruchwylio gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.



91%
O'N HAMGYLCHEDD YMCHWIL YN ARWAIN Y BYD NEU'N RHAGOROL YN RHYNGWLADOL

(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021)

GRADDAU YMCHWIL

Ôl-raddedig

Mae rhaglenni ymchwil ôl-raddedig yn rhoi cyfle i ti ddatblygu gwybodaeth fanwl ac uwch yn dy bwnc. Gan weithio o dan oruchwyliaeth agos arbenigwyr academaidd, cei dy gefnogi i ddod yn ymchwilydd annibynnol medrus, gan gynhyrchu ymchwil wreiddiol sy'n cyfrannu at faes ehangach dy astudiaeth.

Mae Abertawe'n gartref i gymuned ymchwil o fri byd-eang, gyda ffocws cryf ar gynhwysiant a chydweithio i greu effaith yn y byd go iawn. Fel ymchwilydd ôl-raddedig yn Abertawe, byddi di'n cydweithio ag academyddion ac ymchwilwyr blaenllaw, yn ogystal â chael cyfleoedd i weithio gyda **diwydiant** a **phartneriaid allanol**.

Darganfydda fwy

Rydym ni'n cynnig amrywiaeth o raddau ymchwil, gan gynnwys PhDs, doethuriaethau proffesiynol, a graddau Meistr drwy Ymchwil.

DATBLYGIAD YMCHWILWYR ÔL-RADDEDIG

Mae ein rhaglen datblygu ymchwilwyr wedi'i chynllunio i gefnogi myfyrwyr ymchwil i lwyddo yn ystod eu hastudiaethau. Bydd yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnat i gynnal dy ymchwil, ynghyd â'r sgiliau personol a phroffesiynol ehangach a fydd yn dy helpu i lwyddo mewn unrhyw yrfa yn y dyfodol.

Mae ein rhaglen wedi'i mapio i Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae (RDF), sy'n golygu ein bod yn cyd-fynd ag arfer gorau'r DU a'r gymuned ryngwladol ym maes datblygu ymchwilwyr. Mae hyn yn cynnwys pynciau fel gwybodaeth ac ymarfer ymchwil, rheoli ymchwil, ymgysylltu ac effaith, a chymunedau ymchwil.

Rydyn ni'n cynnig gweithdai ac adnoddau ar-lein i ddatblygu dy sgiliau a dy wybodaeth, yn ogystal â chyfleoedd i roi'r sgiliau hyn ar waith ac i gysylltu ag ymchwilwyr eraill drwy ddigwyddiadau a chyfleoedd ymarferol.





GWNEUD CAIS AM RADD YMCHWIL

Mae dau lwybr penodol ar gael i ti wrth wneud cais am raglen ymchwil ôl-raddedig:

1 PROSIECT AC YSGOLORIAETH YMCHWIL A GYNLLUNIWYD YMLAEN LLAW

Bydd prosiect a gynlluniwyd ymlaen llaw yn aml yn rhan o waith ymchwil ehangach a wneir gan academydd neu grŵp ymchwil. Fel arfer bydd teitl a nodau ac amcanion penodol i'r mathau hyn o brosiectau, a byddi di fel rheol yn cael dy oruchwylio gan yr academydd a gynlluniodd y prosiect. Mae Prifysgol Abertawe yn hysbysebu nifer fawr o'r cyfleoedd hyn drwy gydol y flwyddyn academaidd ym mhob maes pwnc. Cei weld yr holl brosiectau sydd ar gael ar ein tudalennau **ysgoloriaethau ymchwil** neu ar ein tudalen PhD wedi'u hunanariannu, gyda chyfleoedd newydd yn cael eu hychwanegu'n rheolaidd.

2 PROSIECTAU A HUNANGYNLLUNIWYD

Bydd angen ychydig mwy o ymdrech a meddwl i gychwyn ar PhD a hunangynlluniwyd, ond yn y bôn, dylet fod â thema i dy brosiect sydd wirioneddol yn dy gyffroi ac o ddiddordeb i ti. Ar ôl creu syniad cychwynnol ar gyfer prosiect, bydd angen i ti ddod o hyd i oruchwyliwr academaidd priodol. Man dechrau da yw dod o hyd i'r adran yn y Brifysgol sydd â'r meysydd cryf sydd fwyaf perthnasol i dy waith ymchwil. Gelli hefyd chwilio **cyfeiriadur arbenigedd Abertawe** i ddod o hyd i academydd sydd â diddordebau ymchwil tebyg i'r rhai sydd gen ti.

AI GRADD YMCHWIL YW'R DEWIS PRIODOL I MI?

Ie, os wyt ti eisiau:

- ☑ Dilyn gyrfa yn y byd academaidd neu ymchwil
- ☑ Archwilio pwnc unigol yn fanwl
- ☑ Meithrin sgiliau ymchwil helaeth ac arbenigol
- ☑ Gwella dy ragolygon gyrfa

RHESTR O GYRSIAU
GRADDAU YMCHWIL


DY GYMUNED YMCHWIL Ôl-raddedig

Mae Abertawe'n gartref i gymuned ymchwil ffyniannus sy'n cyfuno ymchwil o safon fyd-eang ag ethos croesawgar, cynhwysol a chydweithredol. Mae ein Gwasanaeth Ymchwil Ôl-raddedig yn cydlynu gweithgareddau ôl-raddedig rhyngddisgyblaethol a chymorth ar draws y Brifysgol. Rydym yn gweithio i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y profiad gorau posib drwy ddarparu mynediad at gyfleoedd cyllid a datblygu, darparu hyfforddiant ac adnoddau i dy gefnogi i ddatblygu dy sgiliau proffesiynol a dy sgiliau ymchwil a thrwy gefnogi digwyddiadau a gweithgareddau a arweinir gan fyfyrwyr.

Fel rhan o ymrwymiad Abertawe i gefnogi'r ymchwilwyr gorau, rydym yn cynnig sawl PhD wedi'u hariannu'n llawn drwy ein prif raglenni: Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Ymchwil Prifysgol Abertawe (SURES) ac Ysgoloriaethau Ymchwil Partner Strategol Prifysgol Abertawe (SUSPRS). Rydym hefyd yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniad academaidd drwy wobrau James Callaghan, sy'n darparu cyllid i fyfyrwyr ymchwil presennol yn Abertawe i ddatblygu eu hymchwil ymhellach.

Fel sefydliad ymchwil o fri rhyngwladol, rydym yn rhan o sawl menter ddoethurol nodedig a ariennir gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI). Rydym yn dod ag arbenigwyr ynghyd ac yn cefnogi ein myfyrwyr ddoethurol i ddod yn ymchwilwyr blaenllaw'r dyfodol, gan gynnig cyfleoedd datblygu ychwanegol fel astudio neu weithio dramor, a lleoliadau gyda phartneriaid diwydiannol.







DATHLU EIN CYMUNED YMCHWIL ÔL-RADDEDIG

Mae ein Harddangosfa Ymchwil Ôl-raddedig flynyddol yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ymchwil arddangos eu hymchwil, cysylltu â myfyrwyr o wahanol ddisgyblaethau, a datblygu sgiliau gwerthfawr ym maes ymgysylltu a chyfathrebu.

Mae'r digwyddiad yn gartref i gystadleuaeth posteri ymchwil ôl-raddedig y brifysgol gyfan, yn ogystal â rownd derfynol Prifysgol Abertawe o gystadleuaeth Thesis Tair Munud, sy'n herio ymchwilwyr i gyflwyno eu hymchwil mewn dim ond tri munud.

ISRADDEDIG I Ôl-raddedig

Mae rhai o'n myfyrwyr presennol yn rhannu eu profiadau o drosi o astudiaethau israddedig i ôl-raddedig:

Mae llawer o fanteision i aros gyda ni yn Abertawe i astudio dy radd ôl-raddedig.

1. Byddi di eisoes yn gyfarwydd â'r Brifysgol, ei champysau a'r ardaloedd o amgylch.
2. Gan y byddi di eisoes wedi astudio gyda ni, byddi di'n gwybod am y lleoedd gorau i fyw, astudio, bwyta neu ymlacio!
3. Byddi di'n dal i allu cael mynediad at ystod eang o wasanaethau a gynigir gan adrannau megis Tîm Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, Academi Hywel Teifi, Y Ganolfan Llwyddiant Academaidd a'r Hwb.
4. Mae nifer o gyfleoedd i ti astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ôl-raddedig gan roi mantais sylweddol i ti yn ariannol ac o ran dy gyflogadwyedd. Bydd parhau i astudio trwy'r Gymraeg wedi i ti astudio yn yr iaith ar lefel israddedig yn gam naturiol ymlaen i ti ac mae digon o gefnogaeth ar gael i dy alluogi i ddychwelyd at astudio yn y Gymraeg os na wnest ti hynny dros y blynyddoedd diwethaf.
5. Efallai dy fod eisoes yn adnabod sawl cyn-fyfyriwr ôl-raddedig, ac efallai y byddi di'n gallu parhau i fyw gyda'r bobl rwyt wedi rhannu fflat â nhw.
6. Mae ystod o gyrsiau trosi Abertawe yn dy alluogi i astudio ar gyfer dy radd ôl-raddedig mewn maes pwnc newydd sbon.
7. Os wyt yn dewis astudio'r un maes pwnc, gelli di barhau i adeiladu ar dy berthynas waith gyda darlithwyr a mentoriaid academaidd, gan ddatblygu dy wybodaeth arbenigol.
8. Fel myfyriwr presennol yn Abertawe, byddi di'n cwblhau ffurflen gais fyrrach ar gyfer dy gwrs meistr dewisedig* trwy Lwybr Carlam.

* Mae cyfyngiadau cwrs yn berthnasol

LLWYBR CARLAM I FYFYRWYR PRESENNOL PRIFYSGOL ABERTAWE



MAISIE EDWARDS

PhD – Archwilio i ddefnydd y Gymraeg o fewn gofal iechyd

"Dechreuais fy nhaith fel myfyriwr Iechyd Poblogaethau a Gwyddorau Meddygol ond ar ôl graddio, doeddwn i ddim yn barod i adael bywyd brifysgol, y ddinas na'r ffrindiau roeddwn wedi'u gwneud. Felly, penderfynais aros i wneud gradd Meistr trwy ymchwil.

Ar ôl cwblhau'r Meistr, llwyddais i gael ysgoloriaeth ymchwil gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Brifysgol. Mae hyn wedi rhoi cyfle i mi barhau i fwynhau bywyd myfyriwr, ond hefyd i weithio'n ddyddiol yn yr Ysgol Feddygaeth, gan ddefnyddio'r cyfleusterau rhagorol sydd ar gael. Rwy'n hynod o ffodus i gael goruchwylwyr Cymraeg eu hiaith cefnogol iawn, sy'n golygu fy mod yn gallu trafod pob agwedd o fy ngwaith yn ddwyieithog. Rwyf wedi cael y cyfle i deithio ledled Cymru i gyflwyno fy ngwaith mewn cynadleddau, ac yn fwy diweddar, teithiais i Sweden i gyflwyno poster. Mae'r adran datblygu ymchwilwyr hefyd yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant strwythurol a chystadlaethau. Mae manteisio ar y cyfleoedd hyn wedi bod yn hanfodol wrth ddatblygu'r hyder i drafod fy ymchwil o flaen cynulleidfaoedd amrywiol.


Fel myfyriwr israddedig, roedd Abertawe yn teimlo fel cartref o fewn ychydig wythnosau. Nawr, fel myfyriwr ôl-raddedig, mae'r teimlad 'na wedi dyfnhau."

DR HYWEL EVANS

Cyn-fyfyriwr PhD ac MPhys Ffiseg

"Gorffennais fy ngradd meistr Ffiseg (MPhys) a phenderfynais aros yn Abertawe ar gyfer PhD yn gweithio mewn labordy gwrthfater. Llwyddais i gael ysgoloriaeth ymchwil o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Choleg Gwyddoniaeth Prifysgol Abertawe i ariannu fy astudiaethau. Mwynheais allu trafod fy ngwaith gyda rhwydwaith o fyfyrwyr ac academyddion trwy gyfrwng y Gymraeg, a dysgu am ymchwil eraill. Bues i hefyd yn gweithio fel Arddangoswr Ôl-raddedig ar gyfer profiad addysgu ac arian ychwanegol. Mae bod yn ymchwilydd ôl-raddedig yn debyg i fod mewn swydd, ac felly roedd angen mwy o ymrwymiad amser na gyda fy astudiaethau cynt, ond mae'n baratoad da ar gyfer swydd lawn amser. Dysgais i lawer o sgiliau ymarferol, yn ogystal â chyflwyno i arbenigwyr mewn cynadleddau ledled y byd (Belffast, Dundee, Genefa a Belgrade). Mae hyn wedi gwella fy ngallu ac wedi helpu fi i lwyddo mewn cyfweliadau swydd.

Roedd gan Brifysgol Abertawe yr holl adnoddau yr oeddwn eu hangen i lwyddo'n academaidd, ac mae wedi'i lleoli mor agos at barciau a thraethau gwych – doeddwn i ddim eisiau astudio unrhyw le arall!"





CARA MEDI WALTERS

PhD Cymraeg

"Drwy gydol fy ngradd, roeddwn wedi mwynhau'r cyfle i fynd y tu hwnt i gynnwys y cwrs drwy wneud darllen ac ymchwil ychwanegol, ond y profiad o weithio'n fwy annibynnol ar fy nhraethawd estynedig oedd yn cadarnhau i mi mai ymchwil oedd rhywbeth roeddwn wir eisiau ei ddilyn ymhellach. Roeddwn eisiau adeiladu ar y sgiliau roeddwn wedi'u datblygu a chael y cyfle i ymchwilio'n fanylach i faes sydd o ddiddordeb mawr i mi.

Roedd aros ym Mhrifysgol Abertawe yn teimlo fel y cam naturiol nesaf, yn enwedig ar ôl y profiad mor gadarnhaol cefais yn ystod fy ngradd israddedig. Roeddwn wedi elwa'n fawr o'r gefnogaeth a'r cyfleoedd a gefais drwy gyfrwng y Gymraeg, ac roeddwn yn gwybod y byddai modd parhau i ddatblygu fy sgiliau a fy hyder mewn amgylchedd roeddwn eisoes yn gyfarwydd ac yn gyfforddus ynddo. Yn ogystal, roeddwn yn awyddus i barhau i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a chael y cyfle i gyfrannu at ymchwil cyfrwng Cymraeg yn fy maes. Felly, roedd penderfynu aros yn Abertawe yn un hawdd, gan fy mod yn gwybod mai dyma'r lle gorau i mi barhau â fy nhaith academaidd."

Bywyd Prifysgol Abertawe

DERE I GAEL PROFIAD MYFYRIWR GO IAWN!

Cei'r profiad go iawn o fywyd myfyriwr pan fyddi di'n ein dilyn ni ar y cyfryngau cymdeithasol! O 'takeovers' a sesiynau byw ar TikTok i flogiau a chlipiau y tu ôl i'r llenni, byddi di'n teimlo fel myfyriwr Abertawe cyn i ti gyrraedd hyd yn oed.

DILYNA NI:

@PrifAbertawe

@PrifysgolAbertawe





Amy Locke,

PhD Astudiaethau Meddygaeth a Gofal Iechyd

"Y peth gorau am ymgymryd â'm gwaith PhD ym Mhrifysgol Abertawe yw'r cymorth a'r arweiniad eithriadol sy'n cael eu darparu yn y cyfleuster gwyddor data poblogaethau. Mae'r staff yn fy adran wedi fy ngalluogi i dyfu fel ymchwilydd annibynnol. Mae'r rhaglen wedi darparu, ac mae'n parhau i ddarparu, gyfleoedd gwerthfawr i gydweithredu â llunwyr polisi, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru, i wella fy ymchwil."

Darganfydda fwy



Alpha Evans,

PhD Cymraeg

Astudiais fy ngradd israddedig (BA Cymraeg) yn Abertawe cyn dechrau ar fy PhD. Dewisais astudio fy ngradd yn Abertawe oherwydd pan roeddwn i'n dod i Ddiwrnod Agored, roedd pob aelod o staff yn gyfeillgar iawn ac yn gwneud popeth o fewn ei allu i wneud i mi deimlo'n gartrefol. Yna penderfynais barhau â'm hastudiaethau a dechrau fy PhD oherwydd fy mod i'n awyddus i wneud gwaith ymchwil ond hefyd oherwydd y gefnogaeth a'r profiadau a'r cyfleoedd gwych a ges i yn Abertawe.

Darganfydda fwy



Darganfydda lu o storïau myfyrwyr a dysga fwy am brofiad Abertawe.

Kris Ions

PhD Peirianneg Sifil



Bod yn beiriannydd arfordirol yn astudio yn Abertawe yw'r sefyllfa ddelfrydol i mi. Mae'r arfordiroedd hardd ar bob ochr yn fy ysbrydoli'n fawr. Er bod y ddinas yn fach, mae ganddi lawer o nodweddion annwyl y mae'n anodd peidio â'u hoffi. Mae'n ymddangos bod pawb sy'n penderfynu dod i Abertawe o'r unfryd ac mae hynny'n creu awyrgylch gwych. Mae gan Brifysgol Abertawe ei hun gyfleusterau anhygoel, ac mae'r tanc tonnau 30m o hyd rwy'n ei ddefnyddio fel rhan o fy mhrosiect yn wych.

Darganfydda fwy

DOES UNMAN YN DEBYG *i Gartref*

Fel myfyriwr ôl-raddedig sy'n ymuno â chymuned Prifysgol Abertawe, rydym ni am dy helpu i ddod o hyd i le y gelli di ei alw'n gartref. Mae ein llety ôl-raddedig yn cynnig canolfan gyfforddus a chyfleus drwy gydol dy astudiaethau, gyda dewisiadau ar gael ar Gampws y Bae, Campws Parc Singleton a Thŷ Beck yn ardal gyfagos Uplands. Mae hyd y contractau wedi'u cynllunio i gyd-fynd â hyd dy raglen astudio, gyda llawer o fyfyrwyr ôl-raddedig yn dewis contract 51 wythnos.

CAMPWS Y BAE

Campws y Bae yw un o'r unig gampysau prifysgol yn y DU sydd â mynediad uniongyrchol i'r traeth a'i bromenâd glan môr ei hun. Mae'r mathau o lety sydd ar gael yn cynnwys ystafelloedd pâr, ystafelloedd en-suite canolig, ystafelloedd en-suite premiwm, ystafelloedd hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ac yn ogystal fflatiau un neu ddwy ystafell wely. Mae'r llety ar agor i fyfyrwyr ar unrhyw gwrs.

CAMPWS PARC SINGLETON

Mae holl breswylfeydd Campws Parc Singleton o fewn pellter cerdded i'r parc, Parc Chwaraeon Bae Abertawe, Ysbyty Singleton a Bae Abertawe. Mae'r preswylfeydd hyn yn cynnig dewis o ystafelloedd en-suite hunanarlwyo, ystafelloedd safonol, ac ystafelloedd safonol gyda lwfans arlwyo.

Mae llety Campws y Bae a Thŷ Beck yn cynnig contractau 51 wythnos



TŶ BECK

Rydym ni'n cynnig amrywiaeth o ystafelloedd sengl en-suite a safonol, yn ogystal â fflatiau i gyplau a theuluoedd yn Nhŷ Beck, ein preswylfa dawel benodedig sydd wedi'i lleoli yn ardal boblogaidd Uplands, tua milltir o Gampws Parc Singleton. Mae'r llety hwn yn arbennig o addas i fyfyrwyr ôl-raddedig a rhyngwladol, gyda'r fantais ychwanegol o barcio ar y safle.

Archwilia opsiynau llety ym Mhrifysgol Abertawe



* Gwybodaeth a ddarparwyd gan Numbeo, Awst 2026

MANTEISION WRTH FYW AR GAMPWS

- Mae gan ein hystafelloedd Wi-Fi am ddim
- Tîm diogelwch cyfeillgar ar y campws, yn darparu ymateb brys 24/7, cymorth cyntaf a phatrolau diogelwch
- Cyfleusterau golchi dillad 24/7 y gelli di wirio argaeledd ar-lein
- Popeth sydd ei angen arnat i gyd mewn un lle, sy'n golygu llai o amser yn teithio a mwy o amser i wneud y gorau o dy brofiad prifysgol
- Ystafelloedd wedi'u haddasu ar gyfer myfyrwyr ag anghenion arbennig, gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn. Cysyllta â'r Tîm Anabledd am ragor o wybodaeth
- Ystafelloedd en-suite ar gael
- Opsiynau o lety tawel, un rhyw a llety di-alcohol

CAMPWS Y BAE	PARC SINGLETON
Bar Coffi	Canolfan Iechyd
Campfa	Cyfleusterau Chwaraeon
Cyfleusterau Chwaraeon	Deintydd a Meddyg
Diogelwch 24 awr	Diogelwch 24 awr
Golchdy	Golchdy
Lle i Addoli	Lle i Addoli
Neuadd Fawr	Neuadd Fwyd
Neuadd Fwyd	Sinema a Theatr Taliesin a'r Ganolfan Eifftaidd
Siop Fach	Siop Fach
Undeb y Myfyrwyr	Undeb y Myfyrwyr

COSTAU LLETY

Bydd y rhent a deli yn dibynnu ar y preswylfa a'r ystafell rwyt ti'n ei dewis:

LLETY	MATH O YSTAFELL	RHENT WYTHNOSOL*
Campws y Bae	En-suite canolig	Yn dechrau o £184
	En-suite premiwm	Yn dechrau o £191
	Ystafell bâr (y person)	£141
	Fflat un ystafell wely	£220
	Ystafell mewn fflat dwy ystafell wely	£157
Campws Parc Singleton	Safonol	Yn dechrau o £157
	Safonol gyda lwfans arlwyo**	Yn dechrau o £178
	En-suite	Yn dechrau o £176
Tŷ Beck	En suite safonol	Yn dechrau o £163
	Fflat teuluol	£232–£279 (yn dibynnu ar faint)

*Mae'r ffioedd yma ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/2027. Sylwer y bydd graddfa ar gyfer mynediad 2027/2028 yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant wedi'u cadarnhau.

**Gelli di ddefnyddio lwfans talu am arlwyaeth ymlaen llaw ym mannau arlwyo'r Brifysgol a bydd £43.00 yr wythnos ynghlwm wrtho. Maer credydau yn cael eu gosod yn fisol felly gelli di ddefnyddio cymaint neu gyn lleied ag y dymuna bob wythnos.

Darganfydda fwy am ein ffioedd llety



Gelli logi un o'n beiciau Prifysgol Abertawe. Gyda gorsafoedd docio ar hyd prif lwybr beicio'r ddinas, gelli di fynd ar dy feic yn dy amser hamdden.





Mae gennym rai ardaloedd tawel a rhai ddi-alcohol hefyd.

Am fwy o wybodaeth:

abertawe.ac.uk/llety

llety@abertawe.ac.uk

+44 (0)1792 295101

YN DY *Gefnogi*

Cymorth dynodedig i ti fel myfyriwr ôl-raddedig:

Hwb – Sut gallwn dy helpu?

Mae Hwb yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad ar bob agwedd ar fywyd myfyriwr o gofrestru hyd at raddio. Mae'r tîm hefyd yn darparu cyngor, arweiniad ac atgyfeiriadau ar gyfer unrhyw gymorth y gelli di ei angen yn ystod dy amser ym Mhrifysgol Abertawe. Rwyt ti'n gallu ymweld â'n timau profiadol a chyfeillgar ar Gampws Parc Singleton ac ar Gampws y Bae.

- Rhaglenni hyfforddiant sgiliau penodol ar gyfer myfyrwyr ymchwil ac ôl-raddedig a addysgir
- Cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr/myfyrwyr aeddfed gyda chyfrifoldebau gofalu
- Meithrinfa ar y campws gydag opsiynau gofal plant hyblyg
- Swyddogion Undeb y Myfyrwyr Ôl-raddedig penodol



Darganfydda fwy

Prifysgol Abertawe Swansea University | Hwb

IECHYD


Mae gofal deintyddol y Brifysgol yn cynnig ystod lawn o driniaethau'r GIG a phreifat i fyfyrwyr. Lleolir deintyddion a meddygon ar Gampws Parc Singleton.

SWYDDFA ANABLEDDAU

Yn sicrhau'r un profiad i'r holl fyfyrwyr. Mae Canolfan Drawsgrifio Prifysgol Abertawe (SUTC), er enghraifft, yn wasanaeth trawsgrifio arbenigol sy'n darparu adnoddau dysgu hygyrch i'w hargraffu ar gyfer myfyrwyr anabl.

GWASANAETHAU LLES

Amrywiaeth o wasanaethau am ddim sy'n hybu ac yn edrych ar ôl dy les, gan gynnwys: gwasanaeth cymorth iechyd meddwl, cymorth LGBTQ+, myfyrdod, gwasanaeth gwrando a chymorth mewn profedigaeth a ddarperir gan ein tîm cyfeillgar.



Y TÎM CYNGOR ARIAN

Rydym bob amser wrth law i dy helpu i wneud y gorau o dy arian a chadw llygad ar dy gyllideb.





MYND YN *Fyd-Eang*

Mae Prifysgol Abertawe yn cydnabod bod gwella cyflogadwyedd graddedigion i'r dyfodol yn bwysicach nag erioed. Wrth i fwy a mwy o fusnesau fynd ati i gyflogi talent o bob cwr o'r byd, mae'n hanfodol dy fod yn sefyll allan gyda sgiliau ychwanegol.

Mae cyflogwyr yn cydnabod gwerth profiad rhyngwladol yn fawr iawn, ac mae myfyrwyr sy'n treulio amser dramor yn meithrin ac yn dangos y rhinweddau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanyn nhw: ymwybyddiaeth o'r byd a diwylliannau eraill, aeddfedrwydd, hyder a'r gallu i addasu at amgylcheddau a heriau newydd.

Mae astudio a byw dramor yn:

- Rhoi agwedd a phrofiad rhyngwladol i ti
- Dy alluogi fagu hyder a dod yn fwy hunanddibynnol
- Dy helpu i ddatblygu annibyniaeth a blaengaredd

Gweler ein gwefan am fwy o fanylion

swanseauniglobal

#SwanseaUniGlobal

PROFIADAU *Myfyrwyr*

Fel myfyriwr Prifysgol Abertawe, mae cyfleoedd i gael profiad rhyngwladol drwy ein hamrywiaeth o raglenni diwylliannol, gwirfoddoli ac astudio nad ydynt yn dwyn credydau yn ystod yr haf:

Darganfydda fwy

At hynny, gallai rhai myfyrwyr gael cyfle i dreulio cyfnod dramor fel rhan o raglen meistr estynedig. Mae manylion am yr opsiynau hyn ar gael ar dudalennau cyrsiau penodol.

Mae yna ystod o gyfleoedd cyllido ar gael i gefnogi myfyrwyr sy'n dewis mynd dramor – cyfeiria at ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf:

Darganfydda fwy



Sunday Obazie

Treuliodd Sunday Obazie semester dramor yn Ysgol Bush ym Mhrifysgol A&M Tecsas fel rhan o'r radd Meistr Estynedig mewn Cysylltiadau Rhyngwladol.

"Fel myfyriwr Cysylltiadau Rhyngwladol, roedd teithio i UDA ac astudio ym Mhrifysgol A&M Tecsas yn gyfle anhygoel. Gwnaeth y profiad wir ehangu fy ngorwelion, gan fy ngalluogi i ddarganfod pa mor wahanol yw'r diwylliant a'r bobl o'u cymharu â'r DU a Nigeria, sef fy mamwlad. Ochr yn ochr â'm hastudiaethau, roeddwn yn gallu profi diwylliant America yn uniongyrchol drwy fynd i gemau pêl-droed, archwilio bwyd lleol a chwrdd â ffrindiau newydd."

MANTEISION ASTUDIO *Trwy'r Gymraeg*

Mae ein rhagoriaeth addysgu yn cyd-fynd â'n henw da rhyngwladol am ymchwil, gyda llawer ohono wedi'i gwreiddio yn iaith, hanes a diwylliant Cymru. Mae ein graddedigion yn cyfrannu'n sylweddol at amrywiaeth o sectorau ledled Cymru a thu hwnt, a'n nod yw sicrhau bod cyfleoedd i ti baratoi ar gyfer y gyrfaoedd hynny drwy astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfle arbennig i ddatblygu dy sgiliau a manteisio ar gyfleoedd a fydd yn helpu i agor y drws i ddyfodol disglair.

MANTAIS ARIANNOL

Gall astudio rhan o dy gwrs trwy gyfrwng y Gymraeg fod o fantais i ti yn ariannol gyda nifer o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael i fyfyrwyr sy'n dewis gwneud. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod modd i unigolion sy'n ddwyieithog ennill cyflog uwch ar gyfartaledd na chyfoedion sydd yn siarad dim ond un iaith.

RHAGOLYGON GYRFA

Mae ein hymchwil yn dangos bod graddedigion cyfrwng Cymraeg Abertawe yn cyflawni'n uwch na'u cymheiriaid o ran cyfraddau cyflogadwyedd. Hefyd, mae cyflogwyr yng Nghymru yn chwilio am unigolion sydd â sgiliau yn yr iaith Gymraeg. Felly, gallai astudio rhan o dy gwrs trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn fanteisiol dros ben.

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Am fwy o wybodaeth a chanllawiau ymgeisio gweler
colegcymraeg.ac.uk



Ruby Cradle,
Swyddog Materion Cymraeg Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe

"Y Gymraeg yn rhan annatod o'm bywyd.

Mae cael fy ethol yn Swyddog Materion Cymraeg Undeb y Myfyrwyr wedi rhoi pont esmwyth imi rhwng fy astudiaethau a dechrau fy ngyrfa broffesiynol.

Mae fy ngradd mewn Llenyddiaeth Saesneg, ynghyd â fy ngweithgareddau allgyrsiol fel Y GymGym (Cymdeithas Gymraeg y Brifysgol), wedi rhoi dealltwriaeth werthfawr imi o'r cymunedau Cymraeg a Saesneg ar draws y Brifysgol. Rwy'n angerddol am ddod â myfyrwyr o bob cefndir ynghyd ac annog pawb i ymgysylltu â'r hunaniaeth a'r diwylliant Cymreig rydym mor falch o'u dathlu yn Abertawe.

Dros y flwyddyn nesaf, fy mlaenoriaethau fydd nid yn unig hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru fel rhan gadarnhaol a hanfodol o fywyd Prifysgol Abertawe, ond hefyd cynyddu eu gweledigedd, gan sicrhau bod cyfleoedd i fyfyrwyr ymgysylltu â diwylliant a thraddodiadau Cymru.

Rwy'n gwerthfawrogi mor ffodus ydw i o gael y cyfle hwn mor fuan ar ôl graddio. Mae cynrychioli myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gynyddu ei gweledigedd, tra'n meithrin cymuned gynhwysol ym mhob agwedd ar brofiad myfyrwyr Abertawe, yn rhywbeth rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ei wneud."

@susuvpcymraeg

MAE GEN *i Hawl*

Mae gen ti hawl gyfreithiol i dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg. Mae'r hawliau yma wedi cael eu creu o ganlyniad i osod 'Safonau' ar y Brifysgol.

LLYTHYRAU
yn y Gymraeg

GWASANAETH CWNSELA
yn y Gymraeg

CAIS AM GYMORTH ARIANNOL
yn y Gymraeg

CYFARFODYDD
yn y Gymraeg

LLYFRYN CAIS AM GYMORTH ARIANNOL
yn y Gymraeg

TYSTYSGRIFAU
yn y Gymraeg

PROSBECTWS
yn y Gymraeg

CYFLWYNO GWAITH YSGRIFENEDIG
yn y Gymraeg

TIWTOR PERSONOL
sy'n siarad Cymraeg

FFURFLENNI
yn y Gymraeg

Gwenan Evans,
MSc Deinameg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd



"Astudiais fy ngradd israddedig ym Mhrifysgol Abertawe a phenderfynais barhau gyda fy addysg trwy astudio gradd Meistr yma hefyd. Mae Abertawe fel cartref i mi nawr ac felly roeddwn i eisiau treulio mwy o amser yn y ddinas hyfryd hon. Mae fy nghwrs yn ffocysu ar Ddaearyddiaeth Ffisegol ac felly rydw i wedi dewis modiwlau sydd yn edrych ar danau allan o reolaeth, newid hinsawdd, rhewlifau a llawer mwy. Braf oedd astudio rhan o'r cwrs Meistr yn Gymraeg.

Mae astudio Daearyddiaeth wedi rhoi cyfleoedd gwych i mi o ran gweld ardaloedd gwahanol o Gymru yn enwedig wrth gyflawni gwaith maes. Enghraifft o hyn yw treulio penwythnos yn Stagbwll, Sir Benfro, yn edrych ar lygredd yn yr afonydd. Roedd hwn yn llawer o hwyl ac yn brofiad gwerthfawr tu hwnt. Yn y dyfodol rydw i eisiau bod yn athrawes ddaearyddiaeth gyfrwng Cymraeg ac felly bydd cynnwys fy nhraethawd hir yn ddefnyddiol wrth gynllunio tuag at y cwricwlwm newydd."

ACADEMI Hywel Teifi

ASTUDIO A CHYMDEITHASU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae gan Brifysgol Abertawe nifer o gyfleoedd ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ôl-raddedig ac mae Academi Hywel Teifi yma i dy gefnogi i wneud hynny trwy gydol dy amser gyda ni. Bydd parhau i astudio trwy'r Gymraeg wedi i ti astudio drwy'r iaith ar lefel israddedig yn gam naturiol ac o fantais sylweddol ac fe gei di gefnogaeth ac anogaeth lawn i wneud hynny er mwyn ychwanegu at dy gyflogadwyedd, meithrin sgiliau dadansoddi a dangos dy allu i weithio mewn mwy nag un iaith.

Mae Academi Hywel Teifi yn bwerdy ar gyfer y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Prif nod yr Academi yw cefnogi, cynyddu a chyfoethogi darpariaeth addysg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg y Brifysgol er mwyn sicrhau bod ein myfyrwyr yn cael y gorau o ddau fyd – profiad Cymraeg a Chymreig mewn prifysgol sydd â chysylltiadau amlddiwylliannol a rhyngwladol heb eu hail.

Mae'r Academi yn darparu cymuned i'r miloedd o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yma, ac i staff cyfrwng Cymraeg y Brifysgol. Drwy gefnogi adrannau'r Brifysgol mae'r Academi wedi galluogi cynnydd sylweddol yn nifer y pynciau sydd yn cael eu dysgu trwy'r Gymraeg yn Abertawe.

CANGEN PRIFYSGOL ABERTAWE, COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Mae Prifysgol Abertawe yn gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae cangen y Brifysgol wedi'i lleoli yn Academi Hywel Teifi. Mae Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cefnogi myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer doethuriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ysgoloriaethau doethuriaeth diweddar a gyd-ariannwyd gan y Coleg Cymraeg a Phrifysgol Abertawe yn cynnwys meysydd Daearyddiaeth, Seicoleg, Cyfieithu, Cymraeg, Cemeg, Astudiaethau Meddygol a Gofal Iechyd a Gwyddorau Biofeddygol.

Darganfydda fwy

YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae cynllun Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau cyfrwng Cymraeg Academi Hywel Teifi yn agored i fyfyrwyr sydd eisoes wedi dewis dod i Brifysgol Abertawe ac yn dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg lle bo cyfle, yn hytrach na thrwy'r Saesneg.

Darganfydda fwy

AcademiHywelTeifi | **AcademiHywelTeifi** | **abertawe.ac.uk/academi-hywel-teifi** | **@academihteifi**

YSGOLORIAETH GOFFA HYWEL TEIFI £3,000

Mae'r Ysgoloriaeth yma ar gael i fyfyrwyr ôl-radd cyfrwng Cymraeg sydd am astudio gradd Meistr trwy Ymchwil, MPhil neu PhD mewn maes sy'n ymwneud â chyfraniad y diweddar Athro Hywel Teifi Edwards i ddysg a diwylliant y Gymraeg; meysydd megis llenyddiaeth Gymraeg, yr iaith Gymraeg, y Cyfryngau, Gwleidyddiaeth neu Hanes.

Am fanylion pellach, gweler ein gwefan

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Academi Hywel Teifi

Prifysgol Abertawe Swansea University



Y GYMDEITHAS GYMRAEG (GYMGYM)

Mae'r GymGym yn rhoi cyfleoedd amrywiol i ti gymdeithasu â siaradwyr Cymraeg eraill mewn amgylchedd anffurfiol. Mae'n gyfle gwych i wneud ffrindiau newydd. Mae'r Gymdeithas Gymraeg yn cwrdd yn rheolaidd gan drefnu llu o weithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys tripiau rygbi, gigs, a chrôls, Eisteddfodau Rhyng-golegol a llawer mwy. Mae'r Gymdeithas Gymraeg yn gweithio'n glos gyda Changen Abertawe o'r Coleg Cymraeg gan hefyd gefnogi Clwb Rygbi Tawe ac Aelwyd yr Elyrch.



DROS
150
O GYMDEITHASAU
50+ O GLYBIAU
CHWARAEON

Rhagorol
GWOBRAU EFFAITH WERDD *
SOS STUDENTS ORGANISING FOR SUSTAINABILITY UNITED KINGDOM

UNDEB Y *Myfyrwyr*



Robbie Richards
Llywydd Undeb y Myfyrwyr 2026/27

UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERTAWE
SWANSEA UNIVERSITY STUDENTS' UNION

Shwmae, Robbie ydw i, dy Lywydd Undeb y Myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2026–27. Mae'n fraint wirioneddol cael ymgymryd â'r rôl hon, ac rydw i'n gyffrous am yr hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd.

Mae'r flwyddyn hon yn canolbwyntio ar sicrhau bod myfyrwyr wrth wraidd pob penderfyniad. Fy rôl i yw cynrychioli dy safbwyntiau, herio lle mae angen gwelliant, a gweithio gyda'r Brifysgol i greu newid ystyrlon.

Ar ôl gwasanaethu fel dy Swyddog Chwaraeon yn flaenorol, rydw i wedi cael y cyfle i gysylltu â myfyrwyr ar draws y campws a gweld beth sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiad myfyrwyr. P'un a yw hynny'n gyfleoedd i gymryd rhan, mynediad at gymorth, neu greu ymdeimlad cryfach o gymuned, rydw i'n ymrwymedig i ddatblygu'r meysydd hyn ymhellach.

Byddaf yn gweithio gyda thîm o swyddogion amser llawn a rhan-amser sy'n dod ag amrywiaeth eang o syniadau, egni a brwdfrydedd. Gyda'n gilydd, byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni newidiadau sy'n gwella bywyd pob dydd myfyrwyr.

Byddwn yn parhau i gryfhau'r cymorth sydd ar gael i ti, gan gynnwys drwy ein Canolfan Cyngor a Chymorth annibynnol, tra hefyd yn gweithio i greu amgylchedd campws mwy cynhwysol ac ymgysylltiol.

Yn bwysicaf oll, dy Undeb y Myfyrwyr di yw hwn, ac rydym ni eisiau i ti deimlo'n rhan ohono. Gad inni wneud hon yn flwyddyn lle mae dy lais di yn arwain y ffordd.

*Mae Effaith Werdd yn rhaglen gwobrau arobryn UNESCO a gynlluniwyd i gefnogi arfer amgylcheddol a chymdeithasol gynaliadwy o fewn sefydliadau.

YN DY GEFNOGI

Mae ein tîm o swyddogion amser llawn yn cynnal ymgyrchoedd trwy gydol y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth o faterion, a mentrau hynod bwysig i dy gefnogi di! Dyma ychydig yn unig:


Cymorth Astudio: Gwasanaethau am ddim i dy helpu i ymdopi â chyfnodau astudio dwys (gan gynnwys ymweliad wrth gŵn bach anwes).

Rhyddhad: Rydym ni am i bawb deimlo'n ddiogel, i'w croesawu, a'u cynnwys yn Abertawe. Felly, rydym ni'n cynnal ymgyrchoedd trwy gydol y flwyddyn ar bynciau fel Hanes Pobl Dduon, Balchder LGBTQ+, Ymwybyddiaeth Anabledd, a Hawliau Traws i addysgu'r gymuned myfyrwyr ehangach a gwneud ein campysau mor gynhwysol â phosib!

Tashwedd: Yn ystod Tashwedd, rydym ni'n ysgogi cymuned o fyfyrwyr sy'n gwneud gwahaniaeth drwy godi arian a hybu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ac atal hunanladdiad, canser y prostad a chanser y ceilliau. Dyma un o'n hymgyrchoedd mwyaf, ac mae bob amser yn sioe ledled y Brifysgol.

Os wyt ti am ein dilyn i gael y wybodaeth ddiweddaraf am sut brofiad yw bod yn fyfyriwr yn Abertawe, rydym ni ar:

@swanseaunisu



Ymweliad wrth gŵn bach anwes





MAE UNDEB Y MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERTAWE YN CYNNIG:

- Dros 150 o gymdeithasau a dros 50+ o glybiau chwaraeon
- Union Collective; platfform i helpu myfyrwyr gydag arian ac adnoddau i gymryd eu syniadau busnes ar lawr gwlad
- Canolfan Gynghori a Chymorth yn helpu gyda phopeth o landlordiaid i anghyfodau academaidd
- Meithrinfa ar y campws sy'n hyblyg o gwmpas darlithoedd myfyrwyr
- Llais i fyfyrwyr yn y Brifysgol, gan sicrhau bod barn myfyrwyr yn cael ei chlywed ar bob lefel

CHWARAEON I BAWB – CYMERWCH RAN

Ym Mhrifysgol Abertawe, mae gennym ni angerdd dros chwaraeon a helpu myfyrwyr i ffynnu a llwyddo ym mhob agwedd ar eu bywydau ac yn cynnig cyfleoedd i bawb, p'un a wyt yn ddarpar athletwr, yn frwd dros chwaraeon, neu ddim ond eisiau cadw'n heini ac iach.

CHWARAEON
PRIFYSGOL ABERTAWE
SPORT
SWANSEA UNIVERSITY
1920











YMUNA Â'N CYMUNED ACTIF AR GAMPWS

Mae Bod yn ACTIF yn cynnig rhaglen gynhwysfawr a chynhwysol o weithgareddau a digwyddiadau sydd wedi cael eu cynllunio i dy helpu i symud fwy. Ynghyd ag amserlen graidd o weithgarwch corfforol ar y campws, mae'r rhaglen hefyd yn cynnig sesiynau rhagflas, sesiynau sydyn, heriau a sesiynau hyfforddedig, gan gwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau o gerdded a loncian i bêl-foli, boules neu fadminton, ynghyd â chyfleoedd i adael y safle a gwneud y gorau o awyr iach Cymru.

abertawe.ac.uk/chwaraeon

EIN CYNGHREIRIAU MEWNFUROL

Mae ein rhaglen Chwaraeon Mewnfurol yn cynnig cystadlaethau hwyliog a threfnus rhwng myfyrwyr Prifysgol Abertawe drwy amrywiaeth o gynghreiriau a thwrnameintiau ar y campws. Yn agored i fyfyrwyr o bob gallu, mae'n ffordd wych o fwynhau chwaraeon cystadleuol mewn amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar. Ymuna fel unigolyn neu gyda grŵp o ffrindiau i gysylltu drwy chwaraeon, cwrdd â phobl newydd, a chymryd rhan mewn ystod gynyddol o weithgareddau chwaraeon.

CLYBIAU CHWARAEON

P'un a oes gen ti ddiddordeb mewn nofio, hwylio, saethyddiaeth neu golff, mae rhywbeth at ddant pawb ym Mhrifysgol Abertawe. P'un a wyt ti'n ddechreuwr, yn ganolradd neu'n athletwr elît, mae ein 56+ o glybiau'n cynnig cyfleoedd gwych i bawb gymryd rhan mewn chwaraeon clwb.

RHAGLEN PERFFORMIAD UCHEL

Mae ein rhaglenni Perfformiad Uchel mewn rygbi a nofio yn cynnig amgylchedd hyfforddi a chystadlu elît i athletwyr gyda phob un yn cael ei gyflenwi mewn cydweithrediad â chlwb chwaraeon proffesiynol neu gorff llywodraethu cenedlaethol. Mae pob camp yn derbyn hyfforddiant perfformiad uchel, gwasanaethau ym maes y gwyddorau chwaraeon, rheoli ffordd o fyw athletwyr, ffisiotherapi, a chymorth cryfder a chyflyru.

YSGOLORIAETHAU CHWARAEON, A CHYNLLUN YSGOLORIAETHAU I ATHLETWYR DAWNUS (TASS)

Rydym yn cynnig ysgoloriaethau i athletwyr dawnus iawn, gyda buddion ariannol o hyd at £2,000 y flwyddyn, a phecynnau cymorth wedi'u teilwra a allai gynnwys hyfforddiant cryfder a chyflyru, ffisiotherapi, cymorth seicolegol a chyngor maethol, a darperir pob un ohonynt gan ymarferwyr cymwys. Gall buddion ychwanegol gynnwys aelodaeth o gyfleusterau am ddim a hawlen i barcio ar y campws.

DUAL CAREER ACCREDITED tass

YSGOLORIAETHAU

HYD AT £2,000

Gweler y wefan ar gyfer yr amodau:

Darganfydda fwy



VARSITY CYMRU


Yr ail Varsity fwyaf yn y DU, mae'r twrnamaint mawreddog hwn rhwng Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd yn ymgysylltu â 20,000+ o fyfyrwyr mewn dros 30 o ddigwyddiadau gwahanol, trwy ŵyl chwaraeon wythnos o hyd.

Mae'n brofiad myfyriwr cwbl unigryw sy'n cynnig, atgofion a ffrindiau sy'n para am oes.

Gwylia uchafbwyntiau Varsity 2026







AELODAETH O'R GAMPFA

Fel rhan o ffordd o fyw gytbwys ac iach ym Mhrifysgol Abertawe, gall myfyrwyr ymaelodi â'r gampfa a chael nifer o fanteision am bris llai, gan gynnwys:

- Mynediad at gyfleusterau campfeydd ar Gampws y Bae ac ar Gampws Parc Singleton
- Dosbarthiadau ffitrwydd
- Cyfraddau gostyngol i aelodau ar gyfer llogi cyfleusterau

EIN CYFLEUSTERAU CHWARAEON

Gydag ystod helaeth o gyfleusterau chwaraeon ar gael i fyfyrwyr ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe ar bwys Campws Parc Singleton ac ar Gampws y Bae. Mae gan y ddau gampws gyfleusterau iechyd a ffitrwydd ardderchog, gan gynnwys dosbarthiadau ffitrwydd a gweithgareddau dan do a rhai awyr agored i gyrraedd dy nodau.

Mae ein pwll cenedlaethol 50m wedi'i ddefnyddio gan athletwyr wrth baratoi ar gyfer gemau Olympaidd a Pharalympaidd ac ar hyn o bryd mae'n gartref i raglen perfformiad uchel Nofio Cymru. Mae ein timau pêl-droed yn cael defnyddio cyfleuster hyfforddi o safon fyd-eang yn Fairwood, sy'n brif gae hyfforddi i Glwb Pêl-droed Dinas Abertawe. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig cyfleuster cryfder a chyflyru o'r radd flaenaf (Y Sied) sydd ar gael i athletwyr elît a thimau a ddefnyddiwyd gan y Crysau Duon Seland Newydd fel canolfan hyfforddi Cwpan Rygbi'r Byd.

Mae ein hystod eang o gyfleusterau chwaraeon yn cynnwys:

- Cae Artiffisial ar sail dŵr
- Caeau Chwarae
- Cyrtiau tennis
- Gwasanaeth llogi beiciau a llwybrau rhedeg
- Neuaddau chwaraeon aml-bwrpas ac ardaloedd gemau awyr agored
- Pwll Cenedlaethol Cymru 50m Abertawe
- Trac a chae athletau
- Trac athletau dan do

Darganfydda fwy am chwaraeon

SEFYDLU CYNALIADWYEDD YM

mywyd y Brifysgol

Green Flag Award ® Gwobr Y Faner Werdd

(2026/27)

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym ni'n ffodus iawn i gael ystod amrywiol o gynefinoedd naturiol, gan gynnwys traethau, coetiroedd a pharciau. Rydym ni hefyd yn frwd dros ddatblygu cynaliadwy sy'n dod â budd i'n cymuned leol, y DU, a'r byd ehangach.

Fel myfyriwr, mae digon o gyfleoedd i ti gymryd rhan mewn cadwraeth ymarferol. Gelli di helpu i gadw'r ardaloedd hyn yn arbennig drwy ymuno â'n sesiynau rheolaidd i lanhau traethau, sesiynau gwirfoddoli a monitro bywyd gwyllt. Yn ogystal â helpu'r amgylchedd, byddi di'n dysgu sgiliau newydd ac yn cwrdd â ffrindiau newydd ar yr un pryd.

Darganfydda fwy am gymryd rhan



(Cynghrair Prifysgol People & Planet 2026/27)

"Gyda'n campysau ar lan y môr a'r parciau a'r cynefinoedd cyfagos, ein nod yw annog ein myfyrwyr i leihau effeithiau cyfunol ac unigol ar yr amgylchedd a'u gwobrwyo am ein helpu i gyflawni hyn.

Mae ein ap ymgysylltu â chynaliadwyedd, SWell, yn galluogi myfyrwyr i ennill 'Pwyntiau Gwyrdd' am gymryd camau cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi bywyd gwyllt, dewis dull trafnidiaeth carbon isel, cymryd camau i wella dy les meddyliol, a llawer mwy. Bob mis bydd y rhai sy'n ennill y nifer mwyaf o bwyntiau yn ennill taleb i fanwerthwr cynaliadwy, gwobr rydym yn gobeithio y bydd yn gwella cynaliadwyedd pob dydd ein myfyrwyr ac yn cymell eraill i weithredu. Ers i ni lansio'r ap yn 2021, mae myfyrwyr wedi cofnodi dros 288,095 o gamau gweithredu cadarnhaol, ac ar y cyd â staff wedi arbed dros 556,423.5kg o CO_2e.

Pa effaith gelli di ei chael?"

SWell

Teifion Maddock
Prifysgol Abertawe,
Rheolwr Cynaliadwyedd

YMUNA Â'N *Cyn-fyfyrwyr Neilltuol*

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn coleddu'r ymdeimlad o berthyn sy'n dod yn sgil bod yn rhan o'n cymuned ôl-raddedig fywiog. Rydym yn ymfalchïo'n fawr yng nghyflawniadau ein graddedigion, sydd wedi mynd ymlaen i fod yn arweinwyr busnes, yn bencampwyr chwaraeon, ac yn arloeswyr ymchwil sy'n torri tir newydd. Ymuna â ni heddiw a dod yn aelod gwerthfawr o'n cymuned ôl-raddedig ym Mhrifysgol Abertawe.





BEN EVANS

PhD Peirianneg Awyrofod. Dosbarth 2008.

DEWIN AERODYNAMEG, CYTHRAUL CYFLYMDER, TORRWR RECORDIAU.

Gweler proffil llawn Ben

"Clywais i fod grŵp ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang mewn modelu peirianneg gyfrifiadol yn Adran Peirianneg Abertawe felly, yn fy mlwyddyn olaf o astudio yng Nghaergrawnt, dechreuais i archwilio'r posibiliadau o wneud astudiaethau ôl-raddedig yn Abertawe. Yn y cyfnod pan oeddwn i'n astudio, roedd carfan wych o fyfyrwyr PhD yn ymchwilio i feysydd tebyg. Roedd rhai o'r perthnasoedd ddatblygais i yn ystod fy mhedair blynedd fel myfyriwr yn bwysig iawn. Roedd rhai ohonon ni'n ddisgybledig iawn; bydden ni'n dechrau'n gynnar ac yn ceisio bod yn y swyddfa erbyn 7am bob bore yn yr haf ac yna'n gorffen gwaith ganol y prynhawn a mynd i'r traeth i syrffio. Dwi'n gweld eisiau'r diwrnodau hynny'n fawr!."



ANEIRIN KARADOG

PhD Cymraeg. Dosbarth 2020.

BARDD. DARLLEDWR. PERFFORMIWR. IEITHYDD.

Gweler proffil llawn Aneirin Karadog

GWELER MWY O STORÏAU CYN-FYFYRWYR

"Roedd y cyfle i fynd yn ôl i'r byd academaidd yn un apelgar iawn ac yn gyfle i ail ddarganfod lot amdanaf i fy hun. Ar ôl 11 mlynedd o fod yn y byd gwaith penderfynais astudio am ddoethuriaeth. Ar ôl gweithio fel ymchwilydd yn y byd teledu, roedd ymchwil yn ei natur o ddiddordeb i fi. Roedd cael ymchwilio'n ddyfnach ac ailddysgu technegau academaidd yn agor nifer o gyfleoedd i mi. Fy nghyngor i ddarpar-fyfyrwyr yw does dim anfanteision i astudio gradd ôl-raddedig. Os nad wyt ti'n siŵr o'r hyn rwyt eisiau ei wneud, gall hyn dy helpu i finiogi dy drywydd gyrfa a sianelu dy egni i elfen a maes penodol."



ELOISE WILLIAMS

MA Ysgrifennu Creadigol a'r Cyfryngau. Dosbarth 2011.

AWDUR LLYFRAU PLANT, DEILIAD CYNTAF Y TEITL CHILDREN'S LAUREATE WALES.

Gweler proffil llawn Eloise

"Rwyf wastad wedi bod yn hoff o Abertawe. Roeddwn wedi treulio llawer o amser yn gweithio yn y theatr yno ac roeddwn yn dwlu ar yr ardal. Hefyd, roedd y cwrs MA yn apelio ataf yn fawr oherwydd y cyfle i astudio amrywiaeth mor eang o ffurfiau. Roeddwn yn gwybod y byddwn yn gallu rhoi tro ar sgriptio a ffuglen, barddoniaeth a dramâu. Yr adeg honno, nid oedd gennyf syniad pa ffurf o ysgrifennu y byddwn yn dewis arbenigo ynddi, felly roedd yn addas i mi oherwydd ei amrywiaeth. Fy hoff atgof o fy amser yn Abertawe yw'r llyfrgell. Unwaith imi ddod i adnabod y ffordd o'i chwmpas, penderfynais bron fyw ynddi. Hefyd, cwrddais â ffrindiau da iawn ar oedran pan oeddwn yn meddwl fy mod i wedi cwrdd â'm holl ffrindiau eisoes."



OLUWASEUN OSOWOBI

MSc Cysylltiadau Rhyngwladol. Dosbarth 2012.

YMGYRCHYDD. ACTIFYDD. ARWEINYDD SEFYDLIAD OBAMA YN AFFRICA.

Geler proffil llawn Oluwaseun

"Fel myfyriwr Gradd Meistr, roeddwn yn awyddus nid yn unig i ennill profiad academaidd, ond hefyd profiad proffesiynol. Llwyddais i gael swydd yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn ogystal â mewn sectorau gwaith ffurfiol eraill. Ers graddio, fy eiliad mwyaf balch fu sefydlu menter 'Stand To End Rape' a gweld y llawenydd ar wynebau'r goroeswyr rydym wedi gweithio gyda nhw. Mae ymdeimlad dwfn o gyflawniad yn dod pan fydd y sefydliad yn helpu i symud dioddefwr o sefyllfa o gamdriniaeth. Mae wedi bod yn anrhydedd mawr cael fy enwi'n Berson Ifanc y Flwyddyn y Gymanwlad yn 2019 ac yn Arweinydd Sefydliad Obama yn Affrica."

GWNEUD *Cais*

Y BROSES GWNEUD CAIS

Gelli di wneud cais ar-lein am y rhan fwyaf o'n cyrsiau a addysgir a'n cyrsiau ymchwil:

Gwna Gais Ar-lein

Pan fyddwn yn derbyn dy gais, byddwn yn:

- Gwneud yn siŵr dy fod yn bodloni ein gofynion mynediad
- Gwirio bod gen ti'r profiad a'r sgiliau angenrheidiol i astudio'r pwnc
- Chwilio am dystiolaeth o dy gyflawniadau, dy ymrwymiad a dy gymhelliant.

Gelli di olrhain dy gais ar bob cam o'r broses.

Mae proses ymgeisio wahanol ar gyfer rhai cyrsiau. Cer i'n gwefan i gael gwybodaeth am sut i wneud cais ar gyfer dy raglen di:

Y Broses Gwneud Cais

PA GYMWYSTERAU SYDD EU HANGEN ARNAT?

Er mwyn astudio cwrs ôl-raddedig yn Abertawe, fel arfer bydd angen gradd anrhydedd neu gymhwyster ôl-raddedig priodol arnat. Gellir ystyried profiad gwaith perthnasol ar gyfer mynediad i rai o'n cyrsiau a addysgir. Gweler manylion y cwrs am ofynion mynediad manwl.

Wrth gyflwyno cais, cofia gynnwys:

- Copïau o dy drawsgrifiadau academaidd hyd yn hyn
- Copi o dy dystysgrif gradd (os dyfernir)
- Cymhwyster Iaith cymeradwy (os yw'n ofynnol)
- Dy gynnig ymchwil (ar gyfer ceisiadau am raddau ymchwil)
- Dy CV llawn
- Datganiad personol

Mae rhai cyrsiau'n gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwaith ysgrifenedig ychwanegol i ategu cais.

Unwaith y bydd dy gais a dy ddogfennau ategol wedi dod i'n llaw, rydym yn ceisio gwneud penderfyniad (neu roi gwahoddiad am gyfweliad) o fewn 5 niwrnod gwaith ar gyfer ceisiadau am raddau a addysgir a 15 niwrnod gwaith ar gyfer ceisiadau am raddau ymchwil.

PENDERFYNIAD YNGHYLCH DY GAIS

Unwaith y byddwn wedi ystyried dy gais, byddi di'n cael e-bost yn dy gynhori di i fewngofnodi i dy Borth Dysgwyr (Learner Gateway) i weld un o'r penderfyniadau canlynol:

- cynnig lle ar sail amodol neu ddiamod
- gwahoddiad i gyfweliad
- neges yn dy hysbysu na allwn gynnig lle i ti

Swyddfa Derbyn Myfyrwyr y Brifysgol fydd yn paratoi llythyron cynnig bob tro, ar ran yr adran academaidd berthnasol. Bydd amodau a thelerau'r cynnig gennym yn cael eu hatodi.

Os oes gen ti anabledd, cyflwr meddygol neu anhawster dysgu penodol, fe dy wahoddir i gysylltu â Swyddfa Anabledd y Brifysgol neu'r Gwasanaeth Lles fel y gallwn fod yn siŵr ein bod yn rhoi'r cymorth angenrheidiol i ti drwy gydol dy astudiaethau.

DYDDIADAU A DYDDIADAU CAU

Mae gan bob adran ddyddiadau cau ar gyfer ei chyrsiau. Rydym yn argymell dy fod yn cyflwyno dy geisiadau cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi amser i dy hun i wneud y trefniadau angenrheidiol. Sylwer ar y dyddiadau cau am ysgoloriaethau gan fod llawer o'n hysgoloriaethau a'n bwrsariaethau yn cau yn gynharach na'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Cer i'n gwefan:

Dyddiadau cau ymgeisio

EIN POLISI DERBYN MYFYRWYR

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau ac ymholiadau gan bobl ni waeth beth fo'u hoedran, eu tarddiad ethnig neu genedlaethol, eu hil, eu crefydd, eu rhyw, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu statws priodasol, eu cyfrifoldebau teuluol, anabledd corfforol neu synhwyraidd, a chredoau gwleidyddol neu grefyddol oni bai bod y gweithgareddau hynny yn anghyfreithlon neu'n groes i bolisïau'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn trin yr holl ymgeiswyr yn ôl eu teilyngdod unigol. Gellir cael y manylion llawn am ein polisïau yma:

Polisïau Derbyn

COFRESTRU

Bydd gwybodaeth am gofrestru yn cael ei hanfon atat cyn i ti ddechrau dy astudiaethau. Bydd y cyfnod cofrestru ar gyfer cyrsiau a addysgir ym mis Medi a mis Ionawr. Mae hefyd yn bosibl cofrestru ar gyfer rhaglen gradd ymchwil ym mis Ebrill a mis Gorffennaf. Mae'n ofynnol i bob myfyriwr gydymffurfio â gweithdrefnau cofrestru'r Brifysgol a glynu wrth Reoliadau Cyffredinol ac Academaidd y Brifysgol, gweler:

Rheoliadau Academaidd

Gradd wedi'i Haddysgu

LLINELL AMSER Y CAIS

P'un a yw dy gwrs yn dechrau ym mis Medi neu ym mis Ionawr, mae'n syniad da i ti ddechrau meddwl am opsiynau astudio ôl-raddedig o leiaf chwe mis cyn i'r cwrs ddechrau.

01



DECHRAU CYNLLUNIO

Wyt ti am barhau i astudio dy bwnc presennol neu astudio mewn maes hollol wahanol? Efallai y byddi di hefyd eisiau ystyried ai cwrs a addysgir neu raglen ymchwil sy'n iawn i ti. Mae'n syniad da cysylltu â dy ganolwyr a pharatoi datganiad personol cyn dechrau dy gais.

Bydd ein digwyddiadau diwrnod agored ôl-raddedig yn rhoi cyfle i ti archwilio dy holl opsiynau ar ein campysau glan môr.

Darganfydda fwy:

Diwrnodau agored ôl-raddedig

02

GWNA GAIS A DERBYN CYNNIG

Gelli wneud cais yn uniongyrchol i Brifysgol Abertawe ar gyfer y rhan fwyaf o'n cyrsiau ôl-raddedig (gyda rhai eithriadau). Fel arfer, byddi di'n clywed a ydym wedi cynnig lle i ti astudio ar y cwrs rwyt wedi'i ddewis o fewn 5 diwrnod gwaith.

Gelli wneud cais erbyn diwedd mis Gorffennaf (ar gyfer mynediad ym mis Medi) ac ar ddiwedd mis Tachwedd (ar gyfer mynediad ym mis Ionawr) fan bellaf. Paid â'i adael yn rhy hwyr oherwydd y gelli di golli cyfleoedd am ysgoloriaethau.

Gwna Gais Ar-lein



03

DERBYN DY GYNNIG

Rho wybod i ni o fewn 28 diwrnod a wyt am dderbyn dy gynnig er mwyn sicrhau lle ar y cwrs o dy ddewis.





04

GWNA GAIS AM GYLLID

Rydym yn cynnig amrywiaeth o ysgoloriaethau ôl-raddedig ym mhob maes pwnc, yn ogystal â ffynonellau eraill o gyllid. Mae'r broses ymgeisio am gyllid myfyriwr yn agor ym mis Mai neu fis Mehefin fel arfer ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod.

05

PARATOI

Efallai yr hoffet ddechrau ystyried ble rwyt ti am fyw pan fyddi di'n astudio gyda ni. Mae dewis eang o opsiynau llety hyblyg yn y Brifysgol a'r sector preifat ar gael yn Abertawe.





06 CANLYNIADAU

Os wyt yn sefyll arholiadau, byddi di'n derbyn y canlyniadau ac, ar yr amod dy fod yn bodloni telerau dy gynnig, caiff dy le i astudio ym Mhrifysgol Abertawe ei gadarnhau. Byddi di hefyd yn clywed a wyt wedi bod yn llwyddiannus os gwnest di gais am ysgoloriaeth.

07

COFRESTRU

Cyn i ti gyrraedd Abertawe, byddi di'n derbyn cyfarwyddiadau llawn am y broses gofrestru. Gwahoddir yr holl fyfyrwyr ôl-raddedig i ddod i ddigwyddiad sefydlu yn eu cyfadran hefyd – cyfle gwych i gwrdd â ffrindiau newydd!



Gwneud Cais

AM PHD?

Gelli gychwyn dy PhD ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Hydref, Ionawr, Ebrill neu Orffennaf. Rho 3 i 6 mis i dy hun i gynllunio ac ymchwilio cyn i ti gyflwyno dy gais.

Yn Abertawe, rydym yn cynnig dau brif fath o brosiect PhD:

- Y rhai sydd wedi'u cynllunio ymlaen llaw gan academydd (sy'n fwy cyffredin mewn pynciau gwyddoniaeth a pheirianneg)
- Y rhai rwyt ti'n eu dylunio dy hun



Prosiectau a gynlluniwyd ymlaen llaw

Bydd prosiect a gynlluniwyd ymlaen llaw yn aml yn rhan o waith ymchwil ehangach a wneir gan academydd neu grŵp ymchwil. Fel arfer bydd teitl a nodau ac amcanion penodol i'r mathau hyn o brosiectau, a byddi di fel rheol yn cael dy oruchwylio gan yr academydd a gynlluniodd y prosiect. Mae Prifysgol Abertawe yn hysbysebu nifer fawr o'r cyfleoedd hyn drwy gydol y flwyddyn academaidd ym mhob maes pwnc.

CYLLID

Mae ysgoloriaethau ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe fel arfer yn cynnig cyllid ar gyfer cyfnod dy astudiaethau.

Mae benthyciadau PhD ar gael hefyd trwy Gyllid Myfyrwyr Cymru.

GWNEUD CAIS

Mae gwneud cais yn syml – yr unig beth y bydd angen i ti ei wneud bydd dilyn y cyfarwyddiadau ar hysbyseb y prosiect.

Fel arfer bydd gan y rhain ddyddiad cau penodol felly rho ddigon o amser i dy hunan i gwblhau unrhyw waith papur a chasglu geirdaon os oes angen.

Graddau PhD a hunangynlluniwyd

Bydd angen ychydig mwy o ymdrech a meddwl i gychwyn ar PhD a hunangynlluniwyd, ond yn y bôn, dylet fod â thema i dy brosiect sydd wirioneddol yn dy gyffroi ac o ddiddordeb i ti.

CYSYLLTA Â DARPAR ORUCHWYLWYR

Ar ôl creu syniad cychwynnol ar gyfer prosiect, bydd angen i ti ddod o hyd i oruchwyliwr academaidd priodol.

Man dechrau da yw dod o hyd i'r adran yn y Brifysgol sydd â'r meysydd cryf sydd fwyaf perthnasol i dy waith ymchwil. Gelli hefyd chwilio cyfeiriadur arbenigedd Prifysgol Abertawe ar-lein, siarad â dy oruchwyliwr presennol, cer i ffair astudio neu ddiwrnod agored ôl-raddedig.

CYLLID

Ceir nifer o ffyrdd y gelli ariannu dy PhD, gan gynnwys benthyciadau sydd ar gael trwy Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Darganfydda fwy

GWNEUD CAIS

Ar ôl i ti adnabod darpar oruchwyliwr ar gyfer dy syniad ymchwil, bydd angen i ti gysylltu â nhw cyn cyflwyno cais ffurfiol. Mae academyddion yn croesawu ceisiadau anffurfiol gan ddarpar fyfyrwyr a byddant hefyd yn dy helpu ti i ffurfio dy gynnig ymchwil. Gwna dy ymchwil cyn i ti gyflwyno dy gais a threulio amser yn ei baratoi.

Pob lwc!





Dy Ganllaw

I RADDAU ÔL-RADDEDIG



MATHAU O RADD



DBA Doethur mewn Gweinyddu Busnes

DProf Doethur mewn Astudiaethau Proffesiynol. Mae DProf yn gymhwyster ar gyfer ymarferwyr uwch. Wrth gwblhau'r arholiad yn llwyddiannus byddi di'n ennill doethuriaeth a gellir dy gyfarch fel Doethur.

EdD Doethuriaeth mewn Addysg

EngD Doethuriaeth mewn Peirianneg

LLM Meistr yn y Cyfreithiau

MA Meistr yn y Celfyddydau

MBA Meistr mewn Gweinyddu Busnes

MBBCh Baglor mewn Meddygaeth a Baglor mewn Llawfeddygaeth

MD Doethur mewn Meddygaeth

MEng Meistr mewn Peirianneg

MPAS Meistr mewn Astudiaethau Cydymaith Meddygol

MPhil Meistr mewn Athroniaeth

MRes Meistr mewn Ymchwil

MSc Meistr mewn Gwyddoniaeth

PGCert Tystysgrif Ôl-raddedig

PGDip Diploma Ôl-raddedig

PhD Doethur mewn Athroniaeth. Mae PhD yn radd ar lefel doethuriaeth sy'n cael ei dyfarnu mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau gwahanol.



RHESTR O GYRSIAU

Graddau a Addysgir

A

Addysg, MA

Addysg ar gyfer y Proffesiynau Iechyd, MA/PGDip/PGCert

Addysg (Cenedlaethol), MA

Addysg (Cymru): Anghenion Dysgu Ychwanegol, MA

Addysg (Cymru): Arweinyddiaeth, MA

Addysg (Cymru): Cwricwlwm, MA

Addysg (Cymru): Ecwiti mewn Addysg, MA

Addysg Feddygol, MSc/PGDip/PGCert

Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, MA/PGDip

Adfer a Chadwraeth Morol, MSc

Arwain a Rheoli Peirianneg, MSc

Astudiaethau Cydymaith Meddygol, MPAS

Astudiaethau Iechyd Cymunedol, Cymhwyster Ymarfer Arbenigol mewn Nyrsio Ardal, PGDip

Astudiaethau Plentyndod, MA/PGDip/PGCert

Astudiaethau'r Oesoedd Canol, MA

B

Bancio a Chyllid, MSc

Bioamrywiaeth a Chadwraeth Fyd-eang, MSc

Busnes Rhyngwladol, MSc

C

Y Clasuron a Hanes yr Henfyd, MA

Cyfathrebu, Arferion y Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus, MA

Cyfathrebu ym myd Chwaraeon a Newyddiaduraeth, MA

Cyfiawnder Troseddol Cymhwysol a Throseddeg, MA

Cyfieithu a Chyfathrebu Rhyngddiwylliannol, MA

Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd (Estynedig, gydag Université Grenoble Alpes), MA

Cyfieithu Proffesiynol (Estynedig, gydag Université Grenoble Alpes), MA

Cyfraith Fasnach Ryngwladol, LLM

Cyfraith Fasnachol Ryngwladol, LLM

Cyfraith Fasnachol a Morwrol Ryngwladol, LLM

Cyfraith Forwrol Ryngwladol, LLM

Cyfraith Olew, Nwy ac Ynni Adnewyddadwy, LLM

Cyfrifeg a Chyllid, MSc
Cyfrifeg Strategol, MSc
Cyfrifiadureg, MSc
Cyfrifiadureg – Informatique (Abertawe), MSc
Cyfrifiadureg Uwch, MSc
Cyllid, MSc
Cyllid a Dadansoddeg Data Mawr, MSc
Cynradd gyda SAC, PGCert
Cysylltiadau Rhyngwladol, MA
Cysylltiadau Rhyngwladol (Estynedig), MA

CH

Chwarae Datblygiadol a Therapiwtig, MA/PGDip/PGCert

D

Dadansoddeg Ariannol, MSc
Darganfod, Datblygu a Throsi Cyffuriau, MSc
Deallusrwydd Artiffisial a Gwyddor Data, MSc
Deinameg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd, MSc
Dulliau Ymchwil Cymdeithasol, MSc
Dulliau Ymchwil mewn Seicoleg, MSc

E

Economeg, MSc
Economeg a Chyllid, MSc

Ff

Ffiseg Meddygol, MSc
Ffisioleg Ymarfer Corff Glinigol, MSc

G

Gwaith Cymdeithasol, MSc
Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy, PGCert
Gwleidyddiaeth, Llywodraethu a Pholisi Cyhoeddus, MA
Gwrthdaro, Datblygiad a Hawliau Dynol, MA

RHESTR O GYRSIAU

Graddau a Addysgir

Gwybodaeth Ddaearyddol a Newid yn yr Hinsawdd, MSc

Gwybodeg Iechyd, MSc/PGCert/PGDip

Gwyddoniaeth Glinigol (Ffiseg Feddygol), MSc

Gwyddor Actiwaraidd, MSc

Gwyddor Biofeddygol (Biocemeg Glinigol), MSc/PGDip

Gwyddor Biofeddygol (Microbioleg Glinigol), MSc/PGDip

Gwyddor Data, MSc

Gwyddor Data Gymhwysol, MSc/PGDip

Gwyddor Data Iechyd, MSc/PGDip/PGCert

Gwyddor Perfformiad Chwaraeon Uwch, MSc

Y Gyfraith ac Ymarfer Cyfreithiol, LLM

H

Hanes, MA

Hanes Cyhoeddus a Threftadaeth, MA

Hanes Cyhoeddus a Threftadaeth (Estynedig), MA

Hawliau Dynol, LLM

Hedfan Cynaliadwy, MSc

I

Iechyd Cyhoeddus a Hybu Iechyd, MSc/PGDip

Ll

Llenyddiaeth Saesneg, MA

Llwybr Seicoleg, MSc a PhD Integredig Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol yr ESRC – Elfen MSc

M

Marchnata, MSc

Mathemateg, MSc

Mathemateg a Chyfrifiadureg ar gyfer Cyllid, MSc

Meddygaeth Genomig, MSc/PGDip/PGCert

N

Nanofeddygaeth, MSc/PGDip/PGCert

Newyddiaduraeth Ryngwladol, MA

Niwrowyddoniaeth Feddygol, MSc

Niwrowyddoniaeth Wybyddol, MSc
Nyrsio (Iechyd Meddwl), MSc
Nyrsio (Oedolion), MSc
Nyrsio Gofal Critigol Oedolion, PGCert
Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Nyrsio mewn Ysgolion), MSc/PGDip
Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Ymwelwyr Iechyd), MSc/PGDip

P

Peirianneg Awyrofod, MSc
Peirianneg Biofeddygol, MSc
Peirianneg Bŵer ac Ynni Cynaliadwy, MSc
Peirianneg Deunyddiau, MSc
Peirianneg Electronig a Thrydanol, MSc
Peirianneg Fecanyddol, MSc
Peirianneg Gemegol, MSc/PG Associate
Peirianneg y Gofod, MSc
Peirianneg Gyfrifiadurol, MSc
Peirianneg Sifil, MSc
Peirianneg Strwythurol, MSc
Peirianneg Ymasiad, MSc

Rh

Rhagnodi Anfeddygol i Fferyllwyr, PGCert
Rhagnodi Anfeddygol i Nyrsys a Bydwragedd, PGCert
Rhagnodi Anfeddygol i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, PGCert
Rheoli, MSc/PGDip
Rheoli (Cyllid), MSc
Rheoli (Dadansoddeg Fusnes), MSc
Rheoli (Deallusrwydd Artiffisial), MSc
Rheoli (Marchnata), MSc
Rheoli (Rheoli Adnoddau Dynol), MSc
Rheoli (Rheoli Gweithrediadau a Chyflenwi), MSc
Rheoli (Rheoli Rhyngwladol), MSc
Rheoli Adeiladu Diwydiannol, MSc
Rheoli Adnoddau Dynol, MSc/PGDip
Rheoli Buddsoddiadau, MSc
Rheoli Gofal Iechyd, MSc
Rheoli Prosiectau, MSc
Rheoli Uwch (Arloesedd Cymhwysol), PGCert
Rheoli Uwch (Busnes ac Arweinyddiaeth Chwaraeon), MSc/PGDip/PGCert
Rheoli Uwch (Iechyd a Gofal sy'n seiliedig ar Werth), MSc / PGDip
Rheoli Uwch (Systemau Cymhleth), MSc/PGDip/PGCert

RHESTR O GYRSIAU

Graddau a Addysgir

Rheoli Uwch (Technolegau Gofal Iechyd), MSc

Rheoli Uwch (Trawsnewid Iechyd ac Arloesedd), MSc/PGDip/PGCert

Rhyfel a Chymdeithas, MA

Rhywedd, Pŵer a Thrais, MA/PGDip

S

Seiberddiogelwch, MSc

Seiberdroseddu a Therfysgaeth, MA

Seicoleg (Trosiad), MSc

Seicoleg Chwaraeon, MSc

Seicoleg Fforensig, MSc

Seicoleg Glinigol ac Iechyd Meddwl, MSc

Seicoleg Glinigol ac Iechyd Meddwl, Coleg IST, Gwlad Groeg, MSc

Synhwyro o Bell Drôn Amgylcheddol, MSc

T

TAR Uwchradd gyda SAC: Bioleg, PGCert

TAR Uwchradd gyda SAC: Cemeg, PGCert

TAR Uwchradd gyda SAC: Cyfrifiadureg, PGCert

TAR Uwchradd gyda SAC: Cymraeg, PGCert

TAR Uwchradd gyda SAC: Daearyddiaeth, PGCert

TAR Uwchradd gyda SAC: Dylunio a Thechnoleg, PGCert

TAR Uwchradd gyda SAC: Ffiseg, PGCert

TAR Uwchradd gyda SAC: Hanes, PGCert

TAR Uwchradd gyda SAC: Ieithoedd Modern (Ffrangeg, Sbaeneg), PGCert

TAR Uwchradd gyda SAC: Mathemateg, PGCert

TAR Uwchradd gyda SAC: Saesneg, PGCert

TechGyfreithiol a Chyfraith Fasnachol, LLM

Technoleg Ariannol (FinTech), MSc

Clicia i chwilio
RHESTR O GYRSIAU
GRADDAU A ADDYSGIR

Y

Ymarfer Bydwreigiaeth Proffesiynol Uwch, MSc/PGDip/PGCert

Ymarfer Diabetes, MSc/PGDip/PGCert

Ymarfer Gofal Iechyd Cymunedol a Sylfaenol, PGDip/PGCert

Ymarfer y Gyfraith Proffesiynol, LLM

Ymarfer Uwch Mewn Gofal Iechyd, MSc/PGDip

Ysgrifennu Creadigol, MA

Ysgrifennu Creadigol (Estynedig), MA



RHESTR O GYRSIAU

Graddau Ymchwil

A

Addysg, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell

Addysg Glinigol, PhD

Arloesedd Ynni, MSc drwy Ymchwil

Arloesedd Ynni, PhD/PhD Allanol

Arsylwi'r Ddaear, MSc drwy Ymchwil

Astudiaethau Americanaidd, MA drwy Ymchwil

Astudiaethau Americanaidd, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell

Astudiaethau Americanaidd, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Oklahoma Canolog, PhD ar y Cyd

Astudiaethau'r Cyfryngau, MA drwy Ymchwil

Astudiaethau'r Cyfryngau, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell

Astudiaethau Datblygu, PhD/MPhil

Astudiaethau Empiraidd mewn y Gyfraith a Throseddeg, PhD, WGSSS DTP

Astudiaethau Meddygol a Gofal Iechyd, MD

Astudiaethau Meddygol a Gofal Iechyd, PhD/MPhil/MSc drwy Ymchwil

Astudiaethau Trefol, MSc drwy Ymchwil

Athroniaeth, MA drwy Ymchwil

Athroniaeth, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell

B

Bioamrywiaeth ac Ecosystemau, MRes

Biocemeg a Sbectrometreg Tymheredd, PhD

Biowyddorau, PhD Integredig gyda Phrifysgol Bryste

C

Canser a Genomeg, PhD

Cemeg, PhD/MPhil/MSc drwy Ymchwil/PhD Dysgu o Bell

Cemeg, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Rennes, PhD ar y Cyd

Y Clasuron, MA drwy Ymchwil

Y Clasuron, PhD/MPhil

Cyfieithu, PhD, MPhil

Cyfrifiadura Gweledol a Rhyngweithiol, MSc drwy Ymchwil

Cyfrifiadureg, PhD/MSc drwy Ymchwil/MPhil/PhD Dysgu o Bell

Cyfrifiadureg Ddamcaniaethol, MSc drwy Ymchwil

Cyfrifiadol a Data FMHLS, Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Methodistaidd Houston, Texas, PhD Gydweithredol (Treulio amser yn y ddwy brifysgol)

Cyfrifiadol a Data FMHLS, Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Methodistaidd Houston, Texas, PhD Gydweithredol (Yn gyfan gwbl dramor)

Clicia i chwilio
RHESTR O GYRSIAU
GRADDAU YMCHWIL

Cyfrifiadol a Data FSE, Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Methodistaidd Houston, Texas, PhD Gydweithredol (Treulio amser yn y ddwy brifysgol)

Cyfrifiadol a Data FSE, Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Methodistaidd Houston, Texas, PhD Gydweithredol (Yn gyfan gwbl dramor)

Cyfryngau Daearyddol, MSc drwy Ymchwil

Cyfryngau Digidol, MPhil

Cyfryngau Digidol, MA drwy Ymchwil

Cyllid, PhD/PhD Dysgu o Bell

Cymdeithaseg, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell

Cymraeg, MA drwy Ymchwil

Cymraeg, PhD/MPhil

Cynnyrch Naturiol ac Adnoddau Amgylcheddol, MRes

Cysylltiadau Rhyngwladol, MPhil

Cysylltiadau Rhyngwladol, MA drwy Ymchwil/ PhD Dysgu o Bell

D

Daearyddiaeth Ddynol, PhD/MPhil

Daearyddiaeth Ffisegol, PhD/MPhil

Damcaniaeth a Gofod Cymdeithasol, MSc drwy Ymchwil

Datblygu Rhyngwladol, MA drwy Ymchwil

Deinameg Amgylcheddol, MSc drwy Ymchwil

Deunyddiau, Modelu a Chynhyrchu, EngD

Dihalwyno ac Ail-ddefnyddio Dŵr, MSc drwy Ymchwil

Doethur mewn Gweinyddu Busnes, DBA

Doethur mewn Gweinyddu Busnes (DBA), Prifysgol Abertawe a Hochschule der Medien, Stuttgart, DBA Cydweithredol

Doethur mewn Gweinyddu Busnes (DBA), Prifysgol Abertawe a Phrifysgol y Gwyddorau Cymhwysol Munich, DBA Cydweithredol

Doethuriaeth Broffesiynol mewn Addysg, EdD

Doethuriaeth Broffesiynol mewn Polisi Cymdeithasol a Chyhoeddus, SPPD

Doethuriaeth Broffesiynol mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol, DCrim

Dulliau Ymchwil Cymdeithasol: Troseddeg, PhD Estynedig

Dylunio Cynhyrchion ar sail Efelychu, MSc drwy Ymchwil

Dyniaethau Digidol, MA drwy Ymchwil

Dyniaethau Iechyd, PhD/MPhil

E

Ecoleg ac Esblygiad Ymddygiadol, MRes

Economeg, PhD/PhD Dysgu o Bell/MPhil

Economeg Iechyd, PhD/MPhil/MSc drwy Ymchwil

Efelychu mewn Peirianneg a Datblygu Entrepreneuriaeth (SEED), PhD

Eifftoleg, MA drwy Ymchwil

Eifftoleg, PhD/MPhil

RHESTR O GYRSIAU

Graddau Ymchwil

Ff

Fferylliaeth, PhD

Ffiseg, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell CERN

FFfiseg, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Caeredinu, PhD ar y Cyd

Ffiseg Arbrofol, MSc drwy Ymchwil

Ffiseg a Delweddu Meddygol, PhD

Ffiseg Ddamcaniaethol, MSc drwy Ymchwil

Ffiseg Gymhwysol a Deunyddiau, MSc drwy Ymchwil

G

Gerontoleg ac Astudiaethau Heneiddio, PhD/MPhil

Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, PhD/MPhil

Gwleidyddiaeth, MA drwy Ymchwil

Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell

Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, MSc drwy Ymchwil

Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, PhD/MPhil

Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Canberra, PhD ar y cyd

Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Oklahoma Canolog, PhD ar y Cyd

Gwyddor Data'r Boblogaeth ac Iechyd, PhD

Gwyddor Iechyd, PhD/MPhil

Gwyddor Iechyd, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Oklahoma Canolog, PhD ar y Cyd

Gwyddorau Biofeddygol FMHLS, Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Methodistaidd Houston, Texas, PhD Gydweithredol (Treulio amser yn y ddwy brifysgol)

Gwyddorau Biofeddygol FMHLS, Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Methodistaidd Houston, Texas, PhD Gydweithredol (Yn gyfan gwbl dramor)

Gwyddorau Biofeddygol FSE, Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Methodistaidd Houston, Texas, PhD Gydweithredol (Treulio amser yn y ddwy brifysgol)

Gwyddorau Biofeddygol FSE, Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Methodistaidd Houston, Texas, PhD Gydweithredol (Yn gyfan gwbl dramor)

Gwyddorau Biolegol, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell

Y Gyfraith, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell

Clicia i chwilio
RHESTR O GYRSIAU
GRADDAU YMCHWIL

H

Hanes, MA drwy Ymchwil

Hanes, PhD/MPhil

Hanes, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Oklahoma Canolog, PhD ar y Cyd

Hanes yr Henfyd, MA drwy Ymchwil

Hanes yr Henfyd, PhD/MPhil

I

Iechyd a Lles, MSc drwy Ymchwil

Iechyd Cyhoeddus, PhD/MPhil

Iechyd Meddwl, PhD/MPhil

Ieithoedd Modern, MA drwy Ymchwil

Ieithoedd Modern, PhD/MPhil

Ieithyddiaeth Gymhwysol, MA drwy Ymchwil

Ieithyddiaeth Gymhwysol, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell

Ll

Llenyddiaeth Saesneg, MA drwy Ymchwil

Llenyddiaeth Saesneg, PhD/MPhil

M

Mathemateg, PhD/MPhil/MSc drwy Ymchwil

Meddygaeth Adfywiol, PhD

Meddygaeth Gardiofasgwlaidd a Metabolig, PhD

Metelau wedi'u Peiriannu ar gyfer Apiau Perfformiad Uchel, EngD

Metelau Strwythurol ar gyfer Twrbinau Nwy, EngD

Microbioleg ac Imiwnoleg, PhD

Micro-synwyryddion a Micro-ysgogwyr, MSc drwy Ymchwil

Modelu Amgylcheddol Byd-eang, MSc drwy Ymchwil

Modelu, Data a Deallusrwydd Artiffisial, MSc drwy Ymchwil

N

Nanodechnoleg, MSc drwy Ymchwil

Nanodechnoleg, PhD/MPhil

Nanoelectroneg, MSc drwy Ymchwil

Nanofeddygaeth, PhD

Niwrowyddoniaeth Feddygol, PhD

Nyrsio, PhD/MPhil

RHESTR O GYRSIAU

Graddau Ymchwil

P

Peirianneg, EngD

Peirianneg, Prifysgol Wuhan ac Abertawe, PhD Ddwbl

Peirianneg Awyrofod, MSc drwy Ymchwil

Peirianneg Awyrofod, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell

Peirianneg Biobrosesu, MSc drwy Ymchwil

Peirianneg Biofeddygol FMHLS, Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Methodistaidd Houston, Texas, PhD Gydweithredol (Treulio amser yn y ddwy brifysgol)

Peirianneg Biofeddygol FMHLS, Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Methodistaidd Houston, Texas, PhD Gydweithredol (Yn gyfan gwbl dramor)

Peirianneg Biofeddygol FSE, Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Methodistaidd Houston, Texas, PhD Gydweithredol (Yn gyfan gwbl dramor)

Peirianneg Biofeddygol, PhD

Peirianneg Deunyddiau, MSc drwy Ymchwil

Peirianneg Deunyddiau, PhD/MPhil

Peirianneg Deunyddiau, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Dechnoleg Nanjing, PhD ar y Cyd

Peirianneg Electronig a Thrydanol, MSc drwy Ymchwil

Peirianneg Electronig a Thrydanol, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell

Peirianneg Electronig a Thrydanol, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Dechnoleg Nanjing, PhD ar y Cyd

Peirianneg Electronig a Thrydanol, Prifysgol Abertawe a Université Sorbonne Paris Nord (USPN), Gwyddoniaeth a Pheirianneg, PhD ar y Cyd

Peirianneg Fecanyddol, MSc drwy Ymchwil

Peirianneg Fecanyddol, PhD/MPhil

Peirianneg Fecanyddol, Prifysgol Abertawe a Université Sorbonne Paris Nord (USPN), Gwyddoniaeth a Pheirianneg, PhD ar y Cyd

Peirianneg Feddygol, MSc drwy Ymchwil

Peirianneg Gemegol, MSc drwy Ymchwil

Peirianneg Gemegol, PhD/MPhil

Peirianneg Gemegol, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Dechnegol Nanjing, PhD ar y Cyd

Peirianneg Meinweoedd a Meddygaeth Atgynhyrchiol, MSc drwy Ymchwil

Peirianneg Sifil, MSc drwy Ymchwil

Peirianneg Sifil, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell

Plant a Phobl Ifanc, PhD/MPhil/PhD Allanol Dramor neu yn y DU

Polisi Cymdeithasol, PhD/MPhil/MSc drwy Ymchwil

Polisi Iechyd, PhD/MPhil

Clicia i chwilio
RHESTR O GYRSIAU
GRADDAU YMCHWIL

R

Roboteg, MSc drwy Ymchwil

Rh

Rheoli Busnes, MSc drwy Ymchwil

Rheoli Busnes, PhD/MPhil/PhD Dysgu o Bell

Rheoli Busnes, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Grenoble d'Alpes, PhD Dwbl

Rheoli Gofal Iechyd, PhD/MPhil

Rhewlifeg, MSc drwy Ymchwil

Rhyfel a Chymdeithas, MA drwy Ymchwil

Rhyngweithio rhwng Pobl a Chyfrifiaduron, MSc drwy Ymchwil

S

Saesneg, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Oklahoma Canolog, PhD ar y Cyd

Seicoleg, PhD/MPhil/MSc drwy Ymchwil

Seicoleg, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Oklahoma Canolog, PhD ar y Cyd

Seicoleg, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Grenoble d'Alpes, PhD Dwbl

Seicoleg Iechyd, PhD/MPhil

Systemau Morol a Dŵr Croyw, MRes

Systemau Telathrebu, MSc drwy Ymchwil

T

Technoleg Pilenni, MSc drwy Ymchwil

Technoleg Tanwydd, MSc drwy Ymchwil

Technolegau Iechyd, PhD

Telathrebu, PhD/MPhil

Tocsicoleg a Ffarmacoleg, PhD/MSc drwy Ymchwil

Troseddeg, PhD/PhD Dysgu o Bell/MPhil

Y

Ymfudo Byd-eang, MSc drwy Ymchwil

Ynni Adnewyddadwy Alltraeth, mewn cydweithrediad â Phrifysgolion Caeredin, Caerwysg a Strathclyde, EngD ar y Cyd

Ysgrifennu Creadigol, PhD/MPhil



Cyrsiau Newydd

Yn Dod Yn Fuan

- Addysg (Ar-lein), MA
- Gwyddorau Biofeddygol (Gwyddorau Haematoleg a Trallwysiad), MSc
- Gwyddorau Biofeddygol (Patholeg Gellog a Moleciwlaidd), MSc

Darganfydda fwy: **Cyrsiau Ôl-raddedig a Addysgir yn Dod yn Fuan**



Cadw Mewn Cysylltiad

Mae Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Abertawe yn cynnig cysylltiad a chymorth gydol oes i'w graddedigion. Mae ganddo dros 205,000 o aelodau ledled y byd, ac mae'n rhychwantu gwahanol sectorau gan gynnwys byd diwydiant, byd masnach, chwaraeon a gwasanaeth cyhoeddus. Boed yn arwain corfforaethau rhyngwladol neu fentrau entrepreneuraidd, mae cyn-fyfyrwyr yn cyfrannu'n fyd-eang. Mae'r rhwydwaith amrywiol hwn yn meithrin cysylltiadau a chyfleoedd yn lleol ac yn rhyngwladol, gan gyfoethogi dy daith broffesiynol.

Darganfydda fwy: **Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Abertawe**

WYT TI'N GYN-FYFYRIWR PRIFYSGOL ABERTAWE?

Mae ein cyn-fyfyrwyr yn helpu i lunio a mireinio ein cyrsiau ac mae dy adborth yn bwysig i ni. Darganfydda fwy a chymryd rhan yn yr arolwg Canlyniadau Graddedigion cenedlaethol a chadwa dy fanylion cyswllt yn gyfredol yma:

Canlyniadau Graddedigion

DILYNA NI:

Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Abertawe

Swansea University Alumni Network

Prifysgol Abertawe

Mae'n cyn-fyfyrwyr yn cynnwys:

Alun Wyn Jones, Cyn-gapten Rygbi Cymru a'r Llewod Prydeinig ac Iwerddon

Andy Hopper CBE FRS, Cyd-sefydlydd Acorn Computers Ltd

Annabelle Apsion, Actores

Anne Boden, Cyn Brif Swyddog Gweithredol a Sylfaenydd Banc Starling

Carol Robinson, Llywydd y Gymdeithas Cemeg Frenhinol

Jason Mohammad, Cyflwynydd Teledu

John Maidens, Awdur/Cyfarwyddwr, Holby City, Casualty, Doctors

Liam Dutton, Cyflwynydd y Tywydd ar Channel 4

Liz Johnson, Nofiwr ac enillydd Medal Aur yn y Gemau Paralympaidd

Dr Lyn Evans CBE, Arweinydd Prosiect, Large Hadron Collider, CERN

Richey Edwards and Nicky Wire, Cerddorion, Manic Street Preachers

Sir Terry Matthews OBE, biliwnydd cyntaf Cymru

Archwilia BRIFYSGOL ABERTAWE


DIWRNODAU AGORED ÔL-RADDEDIG

Darganfydda fwy am Brifysgol Abertawe a'n rhaglenni Ôl-raddedig trwy gadw lle ar un o'n digwyddiadau diwrnod agored sydd ar ddod*.

Rydym yn cynnal digwyddiadau diwrnodau agored ôl-raddedig rhithwir trwy gydol y flwyddyn academaidd.

Cadwa dy le heddiw

*edrych ar ein gwefan i gael manylion llawn, dyddiadau a fformat y diwrnodau agored sydd ar ddod.



YMWELIADAU UNIGOL

Efallai y gelli drefnu ymweliad unigol i weld ein campysau a'n hadrannau academaidd. Am fwy o wybodaeth, cysyllta â:

astudio@abertawe.ac.uk

UNIBUDDY

Sgwrsia ag un o'n myfyrwyr ôl-raddedig presennol trwy ein sgwrs Unibuddy ar-lein:

UNIBUDDY

DILYNA NI I DDARGANFOD MWY: @PrifAbertawe @PrifysgolAbertawe



Mae'r neges ganlynol yn cynnwys gwybodaeth bwysig iawn. Cynhyrchwyd y prosbectws hwn yn haf 2026. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y rhaglenni ôl-raddedig y mae Prifysgol Abertawe'n bwriadu eu darparu i fyfyrwyr a fydd yn dechrau eu hastudiaethau prifysgol ym mis Ionawr 2027 a Medi 2027. Rydym wedi gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y gwasanaethau (gan gynnwys y rhaglenni) a ddisgrifir yn y prosbectws hwn yn gywir ar ddyddiad ei chyhoeddi.

Fodd bynnag, efallai bydd angen rhai newidiadau ar, er enghraifft, raglenni, cyflwyno'r addysgu, lleoliadau astudio, cyfleoedd a chyrchfannau rhyngwladol, cyfleusterau neu ffioedd, oherwydd rhesymau dilys ynghylch staffio, rhesymau ariannol, rheoleiddiol ac academaidd. Os bydd anghydfod diwydiannol, ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol neu ddeddfwriaeth a/neu arweiniad llywodraeth yn amharu ar ei gallu presennol i ddarparu'r gwasanaethau (fel y rhai ar adeg cyhoeddi), bydd y Brifysgol yn ceisio cymryd pob cam rhesymol i leihau'r amharu ar y gwasanaethau. Fel ar adeg cyhoeddi, mae'n dirwedd sy'n newid yn barhaus y byddwn yn ei hadolygu'n barhaus/o bryd i'w gilydd.

Byddwn bob amser yn ymdrechu i gadw newidiadau i leiafswm ac yn hysbysu darpar fyfyrwyr yn briodol. Caiff unrhyw newidiadau o ran yr wybodaeth yn y prosbectws hwn eu diweddaru ar dudalennau gwe: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

Rydym ni'n annog myfyrwyr i ymweld â'n gwefan i wirio am wybodaeth sydd wedi'i diweddaru yn y prosbectws hwn cyn gwneud cais.

Mae fformatau amgen ar gael ar gais, cysylltа â:
creativeproduction@abertawe.ac.uk

Cynhyrchwyd gan yr Adran Farchnata, Recriwtio a Rhyngwladol, Prifysgol Abertawe.

Dyluniad: Icon Creative Design, iconcreativedesign.com

Mae Prifysgol Abertawe'n elusen gofrestredig. Rhif: 1138342
© Prifysgol Abertawe 2026